PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

Rhif 163 EBRILL 1990

# DINESYDD

## Berlin Ddoe a Heddiw

(Tudalen 13)



Llun – Castell Caerdydd

CYNNWYS

Colofn Shân ...... 3
Sêr ............ 5
Bwth Ruth ........ 4
Berlin Ddoe a Heddiw . 13
Y Calendar ......... 17
Croesair ........... 19

YN RHAD AC AM DDIM

# SAFBWYNT

## GAN EMYR DANIEL

**Yn un o'i gerddi, mae T Glynne Davies yn cyfeirio at drigolion Radur a Splott. Mewn nodyn ar ddiwedd ei gerdd mae'n esbonio: "Dau o faesdrefi Caerdydd yw Radur a Splott. Mae'n debyg mai yn Radur y byddech chi, ddarllenydd hoff, yn dymuno byw."**

Un o'r pethau sy'n nodweddu'r gwahaniaeth rhwng y maesdrefi hyn heddiw yw bod "woks" y cwmniau lloeren yn dod yn eithaf niferus, bellach, ar waliau cartrefi Splott, fel yn Nhrelai a Llanrhymni. Ond, fel gyda pheiriannau recordio fideo chwap bydd Radur yn dilyn Splott. Nid yw hwn yn rhywbeth i godi calon darllenydd nodweddiadol y Dinesydd sydd, gredwn i, yn teimlo bod gormod o deledu eisoes ac y bydd mwy o ddarpariaeth yn golygu salach gwasanaeth.

Yn sicr, mae peryglon mawr. Ond i ddyfynnu'r cynhyrchydd annibynnol blaenllaw fu gynt yn ganwr pop, Huw Jones, "Paid digalonni", ddarllenydd hoff, neu, o leiaf, paid â digalonni'n llwyr. Hyd yn oed yn llygad y ddrycin sydd yn bygwth y gyfundrefn ddarlledu ar hyn o bryd, mae arwyddion o obaith.

Cyn diwedd y ddegawd, mae'n bosibl y bydd cynifer â deugain o sianeli ar gael i ni ddewis rhyngddynt. Rhaid i bob un sianel ymladd am wylwyr a chyllid i'w rhaglenni. Yn anochel, bydd llawer iawn o raglenni Eingl Americanaidd rhynggyfandirol y lloerenau yn ddiflas o debyg i'w gilydd. Beth yw'r rhagolygon, felly, i'r ddarlledwyr sydd yn poeni am y gwasanaeth i Gymru, boed eu desgiau a'u camerâu yn Llandaf, yng Nghroes Cwrlwys neu yng Nghlos Sofia.

Mae'r gobaith yn gorwedd yn y tebygrwydd diflas y cyfeiriwyd ato. Yn sicr, bydd yn rhaid i HTV, BBC ac S4C ddiogelu'i siâr o raglenni poblogaidd. P'un ai ydyn nhw'n barod i gydnabod hynny ai peidio, ymhlith darllenwyr y Dinesydd mae llawer iawn o wylwyr i raglenni fel Inspector Morse, Coronation Street, a hyd yn oed Neighbours. Ond i HTV Cymru a BBC Cymru, mae rhaglenni am Gymru hefyd yn denu gwylwyr. Mae hyn yn arbennig o wir am newyddion a chwaraeon ond, yng nghanol y rhaglenni poblogaidd a ddaw o'r tu allan i Gymru, mae galw hefyd am raglenni dogfen ac adloniant sydd â'u traed yn ddwfn yn naear Cymru.

Yn y frwydr gystadleuol fawr sydd i ddod, yr hyn fydd yn gwneud ein cynnyrch ni yn ddigon gwahanol i ddenu'r gwylwyr oddi wrth y "gaethiwed Fabylonaidd" y mae'r lloerennau'n debyg o'i gynnig fydd y rhaglenni sydd yn "perthyn" i'n gwylwyr.

Hynny yw, a dyma'r gobaith, ymddengys bod ystyriaethau ariannol poenus y dyfodol yn cyd-ddigwydd yn hapus gyda dyheadau'r rhai sydd yn dymuno darparu gwasanaeth teilwng i bobl Cymru. Er mor fawr y bwlch rhwng cynefin Dewi Ddyfrwr â darlledwyr y nawdegau, dichon bod gofalu am y pethau bychain yn arwyddair buddiol i ninnau hefyd.

### LLONGYFARCH

Llongyfarchwn Elspeth ac Ian Gwyn Hughes ar enedigaeth mab. Ganed Daniel Gwyn ddydd Gwener, Mawrth ail yn Ysbyty Dewi Sant ond erbyn hyn mae'n cysgu'n dawel yn ei gartref yn Llandaf gyda'i rieni a'i chwaer fawr, Lowri. Dymunwn yn dda i'r pedwar ohonyn nhw a'u teuluoedd.


GARI WILLIAMS

yn cyflwyno




ARENA THEATR Y SHERMAN

Nos Fawrth-Nos Fercher, 17-18 Ebrill – 8.00pm

Tocynnau: £5.00, £3.50 (gostyngiadau) (0222) 230451

CWMNI FFILM A THELEDU

Teliesyn

yn cyflwyno

DAROGAN

Cyfres o raglenni ar broffwydo'r dyfodol ar

S4C

Cyflwynydd: Eiry Palfrey (Astrolegydd y Dinesydd)

Teliesyn Cyf. 3, Sgwar Mount Stuart, Caerdydd. CF1 6EE (0222) 480911

# COLOFN SHÂN

'Dwi 'di arfer er yn blentyn fyw ym myd yr alaw werin, ond yn y misoedd dwytha 'ma, mae hynny wedi bod yn fwy gwir nac arfer. Rydwi newydd orffen cwrs o ddeunaw o ddarlithoedd i ddosbarth nos ym Mhenybont ar Ogwr. Ar wahân i'r M4 mewn gwynt glaw a niwl, mae'r profiad wedi bod yn bleserus a buddiol i mi, a chyfarfod â'r dosbarth wedi rhoi ffrindiau newydd i mi.

Sail f'agwedd a'm diddordeb mewn alawon gwerin ydy'r ffaith bod rhywun dro ar ôl tro yn rhyfeddu fel y maen nhw'n adlewyrchu'r natur ddynol – dyn yn ei waith, yn ei gymdeithas ac yn ei fywyd personol. Yr un yw anghenion dyn ym mhob cyfnod, yr un yw ei ofnau, yr un yw ei obeithion, yr un yw ei gamgymeriadau a'i ddyheadau. I mi nid oes well pregeth i'w chael na'r hyn sydd yn y gân werin yma:

Os yw'th galon bron a thorri,
  Paid â deud;
Am fod serch dy fron yn oeri,
  Paid â deud;
Ac os chwalu mae d'obeithion,
  Paid â deud;
Ni ddaw neb i drwsio'th galon,
  Paid â deud.

Pan fo stormydd byd yn gwgu,
  Paid â deud;
A gelynion am dy faeddu,
  Paid â deud;
Ac os weithiau byddi'n llwyddo,
  Paid â deud;
Hawdd i'th lwydd fynd drwy dy ddwylo
  Wrth it ddeud.



Vaughan Williams ddywedodd "Tydi can werin ddim yn newydd nac yn hen, y mae hi fel hen dderwen â'i gwreiddiau yn ymestyn ymhell i'r gorffennol ac yn ddwfn i bridd y ddaear. Nid yw cân werin yn hen nac yn newydd am ei bod hi'n barhaus yn bwrw canghennau a ffrwyth newydd". Ond pethau rhyfedd ydy gwreiddiau ynte. Y maen nhw yno ond 'dallwn ni mo'n gweld nhw, ac ar adegau mae hi'n hawdd meddwl nad ydyn nhw yno. Ambell dro mae amgylchiadau bywyd yn ein cyflyru ni i anghofio 'n bod nhw yno. Ond canlyniad y gwreiddiau yna ydan ni i gyd, a diolch amdanyn nhw.

Y meddyliau yma yn troi yn fy meddwl wrth deithio i Bwllheli i gynhebrwng f'ewyrth ola' ar ochor fy mam. Nid oedd yn achlysur trist oherwydd iddo fyw i gwth o oedran, ond eto, roedd 'na chwithdod go arw wrth sefyll ym mynwent Brynrodyn a syllu tua'r Groeslon, Carmel a mynydd y Cilgwyn. Does dim ar ôl yn yr ardal honno i mi bellach, dim ond sibrydion a chysgodion o'r gorffennol. Eto, melys fydd meddwl amdanynt, ydyn', maen nhw yno yn rhywle, braf fyddai cael clust feinach i'w cydio a'u clywed eilwaith.

Meddwl wrth deithio i'r cynhebrwng a mynd trwy Gricieth, am Ledi Olwen. Rhyfeddais cyn lleied o gyfeirio ati fu yn y paparau a'r cyfryngau. Y mae gen i le i ddiolch iddi, hi gafodd lety imi yn hostel y YWCA yn Llundain, yn Baker Street, dafliad carreg o'r coleg a bûm hapus yno am bedair mlynedd. Hynny'n deillio o f'adnabyddiaeth i o Ledi Olwen. Yn hogan ysgol awn yn rheolaidd i Eisteddfa i ganu i'w hymwelwyr, boed hwnnw yn swper neu de preifat neu yn achlysur i godi arian. Mawr fu ei sêl dros bob elusen leol a chenedlaethol, a dirifedi ei chymwynasau tawel di sôn amdanynt i nifer o unigolion fel ag i minnau.

Dyna ichi gyfnod wedi dod i ben ar lannau Dwyfor – ia, yr un yw yr afon yno, ond nid yr un yw y dŵr. Profiad inni i gyd ynte. Wir yr mi fyddai 'n fwy joli 'r mis nesa'!

## CYMDEIMLAD

Daeth tristwch mawr drosom yn Ebeneser, pan glywsom, fore Llun Chwefror 12, fod Delyth wedi marw. Gwyddem fod hyn yn ddisgwyliedig ond 'doedd ein hiraeth ddim llai'. Yr oedd yn wraig i Dafydd Parri y mae swydd ganddo yn S4C. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Ramadeg Caerfyddin ac yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, lle graddiodd yn y Gymraeg. Merch i Mr a Mrs W H James, Plasparce, Bryn Iwan ydoedd a chwaer i Delme. Yr oedd yn fam hefyd i Betsan (8 oed) a Siwan (6 oed). Gwyddai Delyth pan ddaeth yma ei bod yn dioddef o afiechyd tost ac y byddai'n gorfod cael triniaeth galed ato. Trwy'r holl boen bu'n ddewr eithriadol a pharhaodd i wneud gwaith addysgol gyda phlant tan yr Hydref y llynedd. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Ebeneser a chymerwyd rhan gan y Parchedigion Gwyn Ieuan Jones, Bryn Iwan ac Eifion Jones, Dinbych a'i Gweinidog y Dr Geraint Tudur oedd yn llywio.

Yr oedd y capel dan ei sang a naws arbennig yn y gwasanaeth i gyd. Aethai'r gwragedd ati, fel eu teyrnged i Delyth, i baratoi bwyd i'r rhai a ddaethai o bell cyn yr angladd ac ar ei ôl. Yr oedd canu'r dorf enfawr yn wefreiddiol a chredaf fod pob llygad yn llaith wrth ganu'r geiriau – 'y maglau wedi eu torri/A'm traed yn gwbwl rydd'. Nid oedd y teulu wedi bod yn hir gyda ni ond buan y daethom i'w hadnabod ac i ryfeddu at ddewrder Delyth a'i ffydd ddiffuant. Gwelwn ei heisiau am amser maith a chydymdeimlwn yn ddwys â Dafydd a'r merched bach yn eu colled fawr.

Yn yr Amlosgfa cymerwyd rhan gan Mr Rhys Tudur, cyfaill i'r teulu, a'r Gweinidog.

**Mair Elvet Thomas**

## CWRS UNDYDD YR WYDDELEG LAFAR FODERN

Cynhaliwyd cwrs yn Adran Efrydian Allanol y Brifysgol fis Chwefror eleni. Trefnwyd y cwrs gan Barry Tobin, brodor o ddinas Corc a ddaeth i Gaerdydd yn 1960. Ef yw athro'r dosbarth nos a ddechreuwyd ym mis Hydref ac a ddaw i ben fis Mawrth.

Daeth Kate Thompson, athrawes broffesiynol mewn ieithoedd modern, yn arbennig o Coventry i arwain y cwrs. Daeth 12 o ddysgwyr i'r Cwrs (pump ohonynt yn siaradwyr Cymraeg) ac fe gafwyd diwrnod arbennig o ddiddorol gan gynnwys gwylio ffilm yn y Wyddeleg gan Bob Quinn am "Pottin" ac yn cymryd rhan yn y ffilm roedd actorion megis Cyril Cusack a Donal McCann.

Mae Barry Tobin bellach yn ystyried cynnal rhagor o gyrsiau Gwyddeleg ar ôl y Pasg. Os oes gan ddarllenwyr y Dinesydd ddiddordeb cysyllter ar fyrder â:

**Barry Tobin**
**90 Stryd Brunswick**
**Treganna,**
**Caerdydd CF5 1LL**

Gobeithiwn gael ymateb da.

# "WY'N GWRANDO"

**Peth prin yw bod yn ddigri ar y radio. Fe'n hatgoffwyd o hyn wrth i ni ffarwelio ag un o'n pennaf ddigrifwyr radio. Roedd cael pobl i chwerthin mor reddfol i Charles ag yr oedd hi i Gareth Edwards drin y bêl hirgron. Yn amlach na dim mae cyfresi radio sy'n honni bod yn ddigri wedi methu'n amal. Ond, mae'n rhyfedd sut mae hiwmor yn brigo i'r wyneb yn annisgwyl mewn rhaglenni eraill.**

Mewn rhaglen ddiweddar yn BETI A'I PHOBL y wraig wâdd oedd yr artist Mary Lloyd Jones. Roedd ei doniolwch hi'n heintus a chafodd y ddwy hwyl a chwerthin drwyddi draw. Ac fe gawsom ni wrandawyr yr un hwyl. Daw'r un peth i'r wyneb yn aml yn TALWRN Y BEIRDD ac fe ddaw, o dro i dro, yn STONDIN SULWYN.

Bod yn ddigri o fwriad yw amcan Aled Sam ond os yw'n llwyddo i fod yn bigog mae'n methu â thynnu chwerthin iach o'r gynulleidfa. Mae bod yn feiddgar o ran iaith, yn haerllug o ran delwedd yn arfogaeth ddigon gwan i'n cael i wenu heb sôn am chwerthin.

Un rhaglen sy'n llwyddo i'n diddanu a'n difyrru yw DROS BEN LLESTRI. Mae rhai cyfranwyr yn fwy digri na'i gilydd ond mae'r gyfres yn llwyddo i'n cael i chwerthin llond ein bol.

Mae digonedd o gyfresi sy'n bodloni ar lanw amser yn hytrach na difyrru'r amser. Dyma bapur wal diddrwg didda sy'n rhan o bob sianel sy'n ceisio bod yn bopeth i bawb.

Mae, ar y llaw arall, sawl cyfres sydd wedi ceisio gwneud mwy a'i wneud mewn ffordd ddifyr. Mae CYMRU 2000 yn gyfres hynod o ddifyr a gwerthfawr, cyfres-eistedd-i-lawr-i-wrando-arni. Un arall sy'n cynnal y diddordeb yw ATIG TAID A NAIN sy'n osgoi hiraethu'n ddagreuol ond sy'n llwyddo i roi darlun o gyfnod drwy bric a brac a lloffa newyddiadurol. Un peth sy'n gyffredin gan y ddwy gyfres yw graen a rhuddin mynegiant eu cyflwynwyr.

Rhaglen sionc a bywiog ar faterion cyfoes yw WYDDOCH CHI. Mae'n cynnig arolwg sydyn, os arwynebol, o ddigwyddiadau'r wythnos. Mae'r elfen amharchus a chyfraniadau'r to iau'n ychwanegu at ei ffresni. Ond nid oes neb a wâd mai tywysog ein sylwebyddion newyddiadurol yw'r patriarch John Roberts Williams. Er gwaethaf y llais dolefus sydd, erbyn hyn, yn atyniad ynddo'i hun, ceir ganddo berlau o ddadansoddi a gemau gwirionedd. Dyma bum munud llawnaf ein radio, a'r mwyaf bachog. Mae gan Radio 4 ei John Roberts Williams yn Alistair Cooke.

**Wynne Lloyd**

# BWTH RUTH

**Wel helo pa hwyl sydd?** Dyna'r tymor Gŵyl Ddewi drosodd am flwyddyn arall – cyfnod y swpera, cyngherdda a siaradwyr gwâdd. Mi fûm i'n ffodus iawn eleni eto, mi ges i gyfle i feirniadu yn steddfod Glantaf – yr ysgol isa a'r ysgol uchaf. Braint ydi cael bod yn rhan o fwrlwm ysgol ar adeg fel hyn a gweld yr hwyl, y gwaith a'r ymroddiad ar ran y plant a'r athrawon. Roedd defod y cadeirio yn yr ysgol isa yn raenus dros ben, a'r feirniadaeth gan Bethan Roberts yn galonogol ac yn rymus. Pwysleisiodd pa mor uchel oedd safon gwaith yr enillydd. Llongyfarchiadau calonnog i Carys Mosley a daliwch i sgwennu.

Fe fûm i yn cadw cwmni i gangen Merched y Wawr Caernarfon – a does yna ddim byd gwaeth yn nag oes na gorfod annerch yn agos at adre – a gweld modrabedd a pobl sydd wedi dylanwadu arnoch chi dros y blynyddoedd yn y gynulleidfa. Roedd yna sawl un fyddai wedi bod yn dipyn gwell dewis o wraig wadd na mi – fel Mary Vaughan Jones (sydd erbyn hyn ar daith yn Africa), gobeithio bydd y gangen yn cael peth o'i hanes cyn diwedd eu tymor.



Braf cofiwch chi oedd cwarfod sawl mam enwog – mam Ann Hopcyn, Gareth Blainey a Huw Jones.

Y noson cyn annerch Merched y Wawr Caernarfon mi fûm i yng nghanolfan bentref Llandrillo – pentre bach rhwng Corwen a'r Bala (ar y lôn gefn). 75 o ledis wedi dod ynghŷd i swpera ac i fwynhau. Roedd cangen Llandrillo wedi gwahodd cangen Llandderfel a Llanuwchllyn atynt i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Roedd yno gawl cennin blasus i ddechre ac yna 'buffet' bys a bawd – a sôn am olygfa, anodd oedd gwybod ble i ddechre – a'r blas fel byddai rhywun yn ddisgwyl yng nghefn gwlad Cymru – rhagorol a blas mwy!!

Roedd hi'n wythnos y Steddfod yn Llandrillo a'r noson gynt roedd cystadlaethau'r Babell Lên wedi bod ymlaen ac mi gawsom flas ar ambell am – megis llythyr un gŵr i'r wasg leol yn cwyno fod mudiad Merched y Wawr yn denu'r merched o'u cartrefi – yna awgrymiadau yn y llythyr lliwgar ar sut dylai dynion yr ardal ddelio hefo'r sefyllfa – ond wnai ddim eu hailadrodd a rhoi syniadau ym mhennau dynion Caerdydd!!

Mewn pentref o 400 o fobl a dros hanner y boblogaeth yn newydd ddyfodiaid, roedd *pawb* yn gorfod cystadlu un ai mewn parti cyd-adrodd neu gôr neu sgets – ac yna yn nes ymlaen yn y flwyddyn mae'r Cymry Cymraeg yn gwneud drama yn Saesneg!!

**Mae pobl Llandrillo wedi ei gweld hi ag yn llwyddo i gymhathu'r ddau ddiwylliant – positif ynde!**

**Hwyl.**

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN MAI**
**13 – 04 – 90**


## AR WERTH

***ORGAN HAMMOND (Electronig)***

ac arno recordydd tâpa rhithmau
am £200 nca

Ffôn – (0222) 627435

# SÊR Y DINESYDD

**Eiry Palfrey**

**EBRILL 1990**



### ARIES

Dyma'r mis gorau yn y flwyddyn i chi, pan fydd yr Haul yn symud i'ch arwydd – mis penblwydd i lawer un, ac yn amser i ddechrau ar bennod newydd yn eich bywyd personol ac yn eich gyrfa. Bydd safle'r Lleuad yn eich gorfodi i gymryd sylw o'ch priodas ac ystwytho rhai o'r elfennau anhyblyg yn eich perthynas. A does dim gobaith bydd neb yn talu eu dyledion i chi tan ddiwedd y mis.

### TAURUS

Peidiwch â gorweithio ar hyn o bryd, mae peryg i chi wneud gormod a niweidio'ch iechyd. Mi fyddai'n talu ffordd i chi wneud cyn lleied ag sy'n bosib am gyfnod – ymlacio, encilio, neu gymryd gwyliau byr. Mi gewch syniadau gwreiddiol ar sut i ennill mwy o arian, ond peidiwch â gwneud dim yn eu cylch am y tro.

### GEMINI

Os oes gennych nod neu uchelgais personol mi fyddwch yn nes at ei gyrraedd nawr. Bydd cyfeillion o help mawr i chi yn enwedig yn y gwaith. Tua diwedd y mis fe allai rhywbeth annisgwyl ddigwydd i darfu ar eich hapusrwydd. Efallai bydd perthynas agos yn achosi pryder i chi.

### CANCER

Mae'n rhaid i chi greu cydbwysedd rhwng eich cartref a'ch gwaith ar hyn o bryd. Os na wnewch chi hyn bydd y naill neu'r llall yn dioddef. Efallai byddwch yn llygad y cyhoedd cyn diwedd y mis, ac yn boblogaidd iawn. Mae hwn yn gyfnod prysur iawn i chi, mae hi'n bwysig felly i chi neulltuo amser i ymlacio.

### LEO

Fe allai Ebrill fod yn fis cymdeithasol iawn, byddwch yn treulio amser pleserus yng nghwmni'ch cyfeillion, a mae'n bosib y cewch gyfle i fynd ar daith. Efallai byddwch yn cwympo allan gyda pherthynas pell tua diwedd y mis. Prynwch rywbeth hardd i'r cartref, fe gewch lawer o bleser oddi wrtho.

### VIRGO

Fe ddylai fod gennych lawer o ynni i gyflawni llawer iawn, a mae'n bosib iawn y caiff rhai o'ch gobeithion a'ch dymuniadau eu gwireddu; mae'r gallu gennych nawr i wneud i bethau da ddigwydd i chi. Efallai y cewch arian o gyfeiriad annisgwyl, ac os ydych yn bwriadu prynu neu werthu eiddo dyma'r amser gorau i'w hysbysebu.

### LIBRA

Fe ddylai hwn fod yn gyfnod ffodus iawn i chi, yn enwedig pan fydd y Lleuad lawn yn eich arwydd chi ar y 10fed. Gwnewch ddymuniad, fe ddylai ddod yn wir. Dyma'r adeg i fynnu sylw'r bos, i ofyn am ddyrchafiad, neu am swydd newydd. Mae hefyd yn gyfnod rhamantus iawn. A glywn ni glychau'r Llan yn canu?

### SCORPIO

Cymerwch bethau'n dawel ddechrau'r mis, dyw hwn ddim yn gyfnod da i chi, felly amynedd piau hi. Ond erbyn yr 11eg mi fydd pethau'n llawer gwell, a fe ellwch ddisgwyl llwyddiant a rhwydd hynt i'ch holl brosiectau ar ôl hynny. Cymerwch ofal o'ch iechyd serch hynny. Mae tuedd ynoch i orwneud pethau ar hyn o bryd.

### SAGITTARIUS

Dylai Ebril eleni fod yn gyfnod cymdeithasol yn llawn o hwyl a mwynhad. Efallai byddwch yn dechrau rhamant newydd ddechrau'r mis. Mi fydd hi'n anodd iawn i chi gadw'ch meddwl ar eich gwaith, felly pan na chymerwch chi wythnos o wyliau? Efallai bydd rhywfaint o anghydfod rhyngoch chi a'ch rhieni tua diwedd y mis.

### CAPRICORN

Mae rhywfaint o dyndra rhwng eich cartref a'ch gwaith y mis hwn, a fel allai sefyllfa emosiynol godi yn y gwaith. Serch hynny bydd yn gyfnod llwyddiannus iawn i chi pan fyddwch yn cwblhau prosiect bwysig. Cewch fwy o gyfle o hyn ymlaen i weithio o'ch cartref ac i ymlacio gyda'ch teulu.

### AQUARIUS

Os daw cyfle i fynd ar wyliau neu deithio, cymerwch e – mae angen hoe fach arnoch chi. Mae'n bosib y bydd brawd neu chwaer o help mawr i chi ar hyn o bryd gyda chyngor amserol a help ariannol. Bydd gofyn i chi fod yn ddiplomataidd yn y gwaith rhag digio eich cydweithwyr.

### PISCES

Mae'r pwyslais seryddol ar eich sefyllfa ariannol ar hyn o bryd. Mae pethau'n dechrau gwella o'r diwedd a mi ddylech fod yn well eich byd o hyn ymlaen. Fe all cynlluniau cyfathrebu a theithio fynd o chwith o'r 22ain ymlaen – llythyrau yn hwyr yn cyrraedd, y ffôn neu'r car yn torri i lawr ac yn y blaen.

# DAROGAN

At beth, tybed, fyddwch chi'n troi gyntaf yn y Dinesydd? At y Croesair neu golofn Shân neu, fel 87% o ddarllenwyr papurau newydd a chylchgronau, at golofn y Sêr? Os mai'r olaf yw eich diléit mae'n siwr y byddwch chi hefyd yn gwylio'r gyfres newydd 'Darogan' ar S4C (nos Iau 7 o'r gloch, cynhyrchiad Taliesyn). Cyflwynydd a chynhyrchydd cynorthwyol y rhaglenni yw ein Hastrolegydd ni sef Eiry Palfrey ac yn y gyfres mae'n bwrw golwg ar y gwahanol ddulliau o broffwydo'r dyfodol neu ddadonsoddi'r presennol, dulliau sy'n cynnwys ei harbenigrwydd ei hun ynghyd â darllen dwylo, gardiau Taro, peli gwydr neu hyd yn oed gerrig bach ar lan-y-môr! Dywed ei hun mai mater o ddarllen a dysgu yw meistroli crefft y 'proffwyd' ond mae'n anodd credu nad oes 'na ddim o'r elfen arall holl-bwysig – y synnwyr 'anghyffredin' – yn perthyn i'r sawl sy'n darogan.

Hyd yn oed os ydych chi'n un o'r rhai sydd, o barchedig ofn neu o anghrediniaeth, yn troi tudalen heb ddarllen cyfraniadau Eiry neu Russell Grant fe fydd yn rhaid i chi gyfaddef bod y testun ei hun yn hynod o ddiddorol.

Llongyfarchiadau i'n cyfrannydd ffyddlon, poblogaidd ar ei mentr diweddaraf gan ddyfynnu geiriau ei 'seren' hi (Scorpio) am fis Mawrth – "Rydych yn llawn syniadau creadigol ar hyn o bryd."

**Dymunwn hir oes i'r ysbryd creadigol hwnnw ym mha bynnag ffordd y caiff fynegiant – dim ond i Eiry barhau i gyfrannu i'r Dinesydd!**

# DYDDIADUR Y GWEINIDOG

**2 GWENER . . .**

Fy ymweliad cyntaf â Charchar Caerdydd, (cymryd dosbarth Parch Eirian Rees), ers ychydig dros dair blynedd. Meddwl am eiriau doeth y profiadol TJ – "Er mwyn popeth, paid â gadael i'r . . . wybod dy fod yn Barchedig!" Y broblem gyntaf oedd sicrhau mynediad i'r lle a darganfod y drws ffrynt! Mae 'na fynedfa newydd sbon i'r Carchar erbyn hyn. Rwy'n cofio fy mod wedi arwyddo darn bach o bapur rhai blynyddoedd yn ôl – a oes hawl gen i dywedwch i sôn am yr hyn sy'n mynd ymlaen y tu ôl i'r muriau caeëdig? Yn dal i gredu taw'r peth gorau am y lle yw'r rhyddid i'w adael!

**6 MAWRTH . . .**

Llythyr oddi wrth Seion Newydd, Treforys

*Parhad tudalen 7*

# CWM RHYMNI

Mae trefnwyr Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni yn apelio'n daer am garafanau ar gyfer y nifer fawr o geisiadau a ddaeth i law am le ar y maes carafanau. Dywedodd cadeirydd yr Is-Bwyllgor Carafanau a Phebyll, Cliff Davies, y byddai'n falch clywed oddiwrth unrhywun a allai osod carafan rhwng Awst 4ydd a'r 11fed. Gallai trefnwyr yr eisteddfod roddi cyngor ar delerau a thaliadau, meddai. Ychwanegodd mai pobl gyfrifol fyddai'n defnyddio'r carafanau.

Mae angen hefyd am ragor o gynorthwywyr gwirfoddol ar gyfer y safleoedd Carafanau a Phebyll.

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni wedi cael caniatâd i werthu baneri ar Ebrill 12fed yng Nghaerdydd. Ac mae cadeirydd y pwyllgor gwaith, Hubert Morgan o Gaerffili, wedi apelio am wirfoddolwyr i gynorthwyo i werthu'r baneri. Gofynnir iddyn nhw i gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod ym Margod.

Eleni yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni daeth pum nofel hir i law yn y gystadleuaeth am Fedal Goffa Daniel Owen a gwobr o fil o bunnau. Mae un ar hugain yn cystadlu am y Fedal Ryddiaith a £4000, a roddir eleni am gyfrol o straeon byrion. Ac mae saith wedi cynnig am Dlws y Ddrama, (a roddir eleni er cof am Eynon Evans) a gwobr o £400. Fe wobrwyir drama a gymer rhwng awr a hanner a dwy awr i'w pherfformio, os bydd teilyngdod.

Y llynedd dim ond dau fu'n ymgeisio am Fedal Goffa Daniel Owen. Mae nifer yr ymgeiswyr am y Fedal Ryddiaith eleni dipyn yn uwch nag arfer, un ar ddeg fu'n cystadlu yn Llanrwst a deuddeg yng Nghasnewydd. Mae nifer y cystadleuwyr am Dlws y Ddrama eleni rhywbeth yn debyg i arfer.

Dywedodd trefnydd prifwyl Cwm Rhymni, Penri E Roberts ei fod yn falch fod yr ymateb hyd yn hyn yn dda iawn.

Cyngerdd y Cewri – dyna yw enw cyngerdd arbennig a gynhelir yn Neuadd Dewi Sant, Nos Sul, Ebrill 29ain, am 8.00 o'r gloch yr hwyr, pan fydd rhai o artistiaid enwocaf Cymru yn dod ynghyd i estyn croeso i Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni.

Cyngerdd unigryw fydd hwn ymhob ystyr, gan y bydd yn cynnwys perfformiad cyhoeddus cyntaf Côr Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni y tu allan i ddalgylch yr Ŵyl.

Bydd rhai o dalentau disgleiriaf Cymru yn ymuno â'r Côr ar lwyfan prif neuadd gyngerdd Cymru, yn wynebau a lleisiau cyfarwydd i gyd. Dyma artistiaid sydd wedi hen fwrw prentisiaeth ar lwyfan y Brifwyl ac ar lwyfannau ledled Cymru.

Prif unawadwyr Cyngerdd y Cewri fydd Lavina Thomas, Llandeilo (contralto) a David Lloyd, y cyfreithiwr o Swydd Caint (bariton) – ill dau yn enillwyr y Rhuban Glas yn ystod y blynyddoedd ddiweddar.

Ymhlith y corau bydd Côr Merched y Garth, dan arweinyddiaeth Menna Thomas – côr sydd bellach wedi hen ennill ei blwy' fel un o gorau cerdd dant mwyaf llwyddiannus Cymru; Parti Llwchwr – côr o leisiau ifanc sy'n ffefrynnau eisteddfodol – dan arweinyddiaeth

Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru

## CYNGERDD Y CEWRI

Noson Croesawu Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni 1990

**NOS SUL, 29 EBRILL 1990**

NEUADD DEWI SANT, CAERDYDD – 7.30 y hwyr

**ARTISTIAID**

LAVINA THOMAS – Rhuban Glas 1989 – DAVID LLOYD – Rhuban Glas 1988

Parti Llwchwr – Côr Merched y Garth – Dawnswyr Nantgarw

Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru – Côr Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni

**Tocynnau: £10.00, £6.00, £5,00, £4.00**

**Swyddfa Docynnau Neuadd Dewi Sant: (0222) 371236 – Ffôn-credyd: (0222) 235900**

British TELECOM

Wales and the Marches
Cymru a'r Gororau

Myra Rees, a Chôr Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni, côr o 300 o leisiau, dan arweinyddiaeth Wil Morus Jones.

Bydd Dawnswyr Nantgarw y troedio'r llwyfan gyda rhaglen fywiog a lliwgar o ddawnsio gwerin, a bydd Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn cyflwyno rhaglen o gerddoriaeth offerynnol gyda'u hynawdydd, Gareth Small, ar y corned.

Cyfeillion yr Eisteddfod yng Nghaerdydd sy'n gyfrifol am drefnu Cyngerdd y Cewri, a'u bwriad yw estyn croeso i Eisteddfod Cwm Rhymni gan gydnabod cyfraniad cymdogol trigolion y Cwm hwythau i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a gynhaliwyd yn ôl ym 1978.

Y tri sydd wedi bod yn gyfrifol am y trefniadau yw Y Parch Ifor Rees – trefnydd a chysylltydd, Howard Goodfellow – cyfarwyddwr y cyngerdd, a Robin Jones, sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r rhaglen ac ef fydd yn cyflwyno'r cyngerdd.

*Parhad Dyddiadur*

(B) yn cynnig Sul – fe'ch gwelaf ar 30 Medi. Cyn mynd lan i Ynysybŵl, galw i weld dau o'm cymdogion, John Edmunds a'i wraig yn rhif 48. (Ebeneser (A) nawr, ond Merthyr Tudful a Llundain gynt.) Mae 'na gyfrifoldeb arnom ond does i gofio'r rhai sy'n byw agosaf atom.

Arwain cyfarfod gwahanol i'r arferol yn Noddfa am 7. Anne Arnold wrth y piano a rhannu'r 11 arall yn 3 tîm. Y dasg oedd enwi tonau'r Llawlyfr Moliant Newydd a chwblhau llinell olaf pennill cyntaf rhai o'n hemynau mwyaf cyfarwydd. Wedi cyrraedd adref sylweddoli fy mod wedi gwneud un camgymeriad. Honni bod ARIZONA, RHEIDOL a DYFYRDWY yn enwau afonydd. Enw talaith yn yr UDA yw Arizona – cymysgais hi gyda'r enw Amazon! Ond Meirwyn, Nansi ac Elisabeth oedd un tîm ymhell ar y blaen!

## 8 IAU . . .

Ymadael am 2.30 a chymryd bron awr i gyrraedd y triawd yn 'Irfon', Trecynon. Hanner awr sy' eisiau fel arfer ond roedd ffordd Cwmbach ar gau fel canlyniad i'r glawogydd trwm. Yn ddi-symud felly yn y traffig yn Aberpennar am 25 munud. Wedi rhai ymweliadau eraill, Phil John (The Beeches, Aberdâr) a Jane Ellen Vaughan, (Aberaman), te gydag Afonwy (Owen) cyn rihyrsal Cymanfa Ganu'r Cwm yn festri Calfaria, Aberdâr. Gwilym Jones yn arwain a Derek Morgan yn cyfeilio. 21 o gantorion yn bresennol – 15 menyw a 6 dyn. Seion yn gyfrifol am 33% o'r cyfanswm! Treulio'r mwyafrif o'r ymarfer yn dysgu'r anthem sef Via Crucis, (Llwybyr y Groes), sef trefniant y diweddar D M Rees, Abercwmboi, (Tad Nerys Cadwalader, Pobol y Cwm).

**Y Parchedig Gwilym Jones**

# CYSTADLU

**"Erthygl fer ar gyfer y Dinesydd" oedd testun un o'r cystadlaethau yng Nghyfarfod Cystadleuol Capel Salem, Canton a gynhaliwyd yn ddiweddar. Dyma flas ar y cynnyrch:**

# Erthygl i'r Dinesydd

Un o'r pethau cyntaf a'm tarawaodd wedi byw yn Nghaerdydd am sbel oedd bod i bob ardal ei pharc fechan. Treiliais bnawniau difyr yn ein parc ni yn cerdded drwy'r gerddi, chwara gyda'r plant pan yn fychain a mwynhau lliwiau hyfryd natur. Dal i ddefnyddio'r llwybr trwy'r parc a wnaf fel ffordd byr i gwfwr fy mhlant ond bob wythnos yn ddifeth bydd un ohonom yn cyrraedd adref gyda rhywbeth amhleserus o dan ei esgidiau. A phwy sydd yn gorfod ei lanhau? Y FI! Ydych chi wedi cael y profiad o lanhau budreddi oddi ar wadnau'r 'trainers' modern?

Pam, o pam na all berchnogion cŵn ein hardal ni eu gwylio'n fwy gofalus fel na bo raid i ni gerdded a'n trwynau ar y llawr.

**Detol**

## PORTREAD : Mr Tom Evans

"Be dych chi'n neud bore 'ma?" Dyna oedd fy nghwestiwn cynta' pan ffoniais Mr Evans ar fore Gwener gwlyb.

"Gwrando ar Vivaldi" meddai, gan egluro mai un o'i ffefrynnau oedd y cyfansoddwr hwnnw ynghyd â Mozart, Haydn, Handel – a Beethoven – a Brahms. Heb anghofio Tzaichovsky! Dim ots am dywydd mawr, mae'r haul yn tywynnu arno ond iddo gael cyfle i wrando ar un o'r 300 o recordiau a thapiau, gan gynnwys offer Compact Disc, yn ei gasgliad.

Pen blaenor Capel Salem, Canton, yw Mr Tom Evans. Pen-blaenor a Chyhoeddwr. Bob bore a nos Sul, o fewn trigain eiliad union i ddiwedd y weddi fe fydd yn troi at y meic wrth ei ochr yn y Sêt Fawr a'i godi fel rhyw fath o beriscop Capelog i olwg y rhai ohonom ni'n y gynulleidfa sy'n ddigon beiddgar i fentro cip ar y slei i'w gyfeiriad. Ac yna gyda'r math o amseriad y byddai unrhyw Olivier yn falch o'i feddu mae'n codi ar ei draed ac yn bwrw i'r cyhoeddiadau. Gair o ddiolch i bregethwr y Sul yn gynta' cyn pori drwy'r pentwr o bapurau yn ei law – yn foreau Coffi a ffeiriau sborion a chyfarfodydd Eglwysig – rhestr faith o ddigwyddiadau ddigon i beri iddo'n rhybuddio ni mai digon o gamp fyddai cyrraedd eu hanner nhw! A chyn iddo eistedd yn ei gornel arferol mae'n bwrw golwg o amgylch y gynulleidfa ac yn croesawu y rhai sy wedi 'troi mewn' gan obeithio y bydd eu presenoldeb yn 'gyfrwng o fendith iddyn nhw ac i ninnau!

Dyn bychan sgwâr ydy Tom Evans. Dyn cadarn o ran corff a meddwl. Saer o ran galwedigaeth a chrefftwr naturiol. Bu'n dilyn ei grefft yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan am gyfnod o saith mlynedd ar hugain a'r rhan helaetha' o'r cyfnod hwnnw yn amser Dr Iorwerth Peate, sy'n fawr ei barch ganddo. Cyn hynny bu'n cynnal a chadw prif adeiladau'r ddinas ac efallai'n wir mai diolch iddo fo a'i gyd-weithwyr yn y Frigâd Dân yn ystod y rhyfel y mae'r hen Gastell yn dal ar ei draed heddiw!

Fe'i ganed, yn fab i lowr, yn Glanaman, ac er iddo adael y pentre' hwnnw hanner canmlynedd yn ôl mae'r atgofion am ei fagwrfa o'r ardal nid yn unig yn glir yn ei feddwl ond hefyd wedi eu cofnodi ar dâp – dylanwad Sain Ffagan efallai ond, ac yn debycach, arwydd o ddyn sy'n barod i ddefnyddio technoleg heddiw i warchod ei 'bethe'.

Fel aelod ffyddlon o'i Gapel, ei brif ddileit yn awr yw ei gadw a'i gynnal ym mhob ystyr – yn ysbrydol ac yn ymarferol. Does neb fyddlonach i'w enwad – a does neb parotach chwaith i osod ysgol a'i dringo ar drywydd llechen goll – gweithred sy'n peri tipyn o ofid i'w wraig, Lilian, (hithau'n un o hoelion wyth darpariaethau lluniaethol Salem). Erbyn hyn mae'r ddau'n byw yn Nhrelai ac yn dotio ar eu hwyron, plant eu merch, Mair a'i gŵr Philip. Maen nhw wedi gweld llawer tro ar fyd ers dydd eu priodas yn 1945 pan roedd Tom yn ennill £2.17s 6c yr wythnos ac yn gweld ei hun yn cael ffortiwn wrth dderbyn punt ar ben hynny am ei gymwysterau proffesiynol. Ond tra bo Salem yn sefyll a Vivaldi a'i griw wrth law fydd Tom ddim yn cwyno – heblaw am ambell i gyw-bregethwr sy'n cyfeirio ei eiriau i'w wadnau yn hytrach nag at sedd y cyhoeddwr yng nghornel y Sêt Fawr!

**'Iechyd Da!'**

# Gormod o 'Gyffro ar y Costa'

**Nos Fawrth, Mawth 6ed a welodd berfformiad cyntaf drama newydd Emyr Edwards gan Gwmni'r Gadwyn yn Ysgol Gyfun Radur. Mae'n beth braf gweld cwmni lleol yn perfformio, yn enwedig pan fo'r cwmni hwnnw'n un sy wedi gwneud enw iddo'i hun led-led Cymru gyda'i berfformiadau yn ystod y blynyddoedd diweddar. Eisoes comisiynwyd y cwmni i berfformio cyfieithiad newydd Urien Wiliam o 'Death of a Salesman', drama fawr yr Americanwr Arthur Miller, yn eisteddfod Cwm Rhymni ac fe fydd hynnw, fel y gweddill o'i waith, yn noson i'w chofio mae'n siŵr.**

Mae'r cwmni wedi gosod safonau uchel iawn iddo'i hun eisoes, ac yng ngolau'r enw da sydd iddo rhaid cyfaddef mai siom a gafodd y gynulleidfa Nos Fawrth. Os gwneir ymdrech i anghofio'r hyn a wnaeth y cwmni yn y gorffennol, yna roedd yn noson ddigon diddan gan gwmni pentref, ond cam â'r cwmni talentog hwn fyddai'i feirniadau ar unrhyw ond yr un uchaf posibl.

Beth oedd o'i le? Yn syml iawn gellir ei gronni mewn ychydig eiriau drwy alw'r hyn a gawsom yn 'Gormod o gyffro ar y Costa'. Roedd pawb fel ei gilydd, ar wahân i'r plant, fel pe baent am wneud pob dim ar gyflymdra o ddau gan milltir yr awr, a'r actorion yn ymddwyn fel y dywedai Mam 'yn gwmws fel pe baen nhw wedi'u weindo'. Camgymeriad, rwy'n teimlo, yw i neb ond ambell eithriad fel Alan Ayckbourn, sgrifennu drama a'i chynhyrchu ei hunan am y tro cyntaf oll. Mae llwyddo mewn ymdrech felly yn gofyn am y gallu prin i sefyll yn ôl a beirniadu'r sgript yn ogystal â'i haddasu fel ei bod yn gweithio'n effeithiol ar lwyfan. Disgrifir y ddrama fel comedi ond fe'i perfformiwyd fel y perfformiwyd ffars gwmni enwog y Whitehall 'slawer dydd'. Mae ffars yn gofyn am fynd a dod symud ar lwyfan yn slic a chyflym – peth oedd yn gwbl amhosibl gyda drama fel hon ble roedd dau deulu o fam, tad a dau o blant, pâr priod di-blant, dau o staff cwmni gwyliau a dau aelod o staff y gwesty yn ogystal â'r 'bobl drama' arferol. Maen nhw'n siwr o fynd dan draed ei gilydd, hyd yn oed ar lwyfan mor eang â'r un yn stiwdio drama'r ysgol yn Radur.

Ar y llaw arall, os cael comedi, yna mae'n rhaid cael cymeriadau sy'n gwbl gredadwy o fewn ffiniau'r digwyddiadau, cymeriadau sydd ganddynt rheswm digonol dros ymddwyn fel y gwnânt ar y llwyfan. Roedd cyflymdra'r symud a'r actio ffrenetig ynghyd â'r golygfeydd byrion yn ei gwneud yn amhosibl i ni dderbyn ein bod yn gwylio pobl go iawn. Caricatiwriau un dimenswin a gawsom yn hytrach na chymeriadau o gig a gwaed. Gyda mwy o gyfle iddynt sefydlu eu personoliaethau mi allai'r ddrama fod wedi llwyddo'n well gan fod y syniad y tu ôl i'r ddrama am y gwrthdaro rhwng y Gog a'r Hwntw, pob un yn benderfynol o ennill y goruchafiaeth ar y llall, yn un digon derbyniol. Mae yma ddrama fyddai'n diddanu cynulleidfa ac yn llwyddo rwy'n siwr, ond rhaid cael cryn dorri ac ail-sgrifennu. Mae golygfeydd digon doniol yma a thraw ond eu bod yn rhy fyr i'r cymeriadau fedru magu personoliaeth gron, er gwaethaf ymdrechion yr actorion i roi cig a gwaed o gwmpas yr amlinelliad.

Mae'r set, y goleuo a'r gwisgoedd, fel y disgwylir gan y cwmni hwn, o safon uchel, ond gyda chymaint â deg neu fwy o gymeriadau ar y llwyfan ar yn un adeg, fel gyda'r prydau bwyd yn y gwesty, mae'n amhosibl bron i osod yr actorion mewn mannau ble mae'r weithred neu'r llinell ddoniol ynghyd â'r ymateb iddi yn debyg o gael ei llawn effaith. Mae rhaid i rai o'r actorion fod mewn mannau gwan ac eraill yn y mannau cryf ar y llwyfan a'r cyfan felly yn colli mewn effeithiolrwydd.

**Ni fyddai'n deg i feirniadu'r perfformiadau unigol gan i bob aelod o'r cast wneud ei orau glas gyda'r hyn a gafodd ei wneud a'i ddweud, ond rhaid dofi rhyw ychydig ar y rhuthro gwyllt er mwyn rhoi cyfle i'r ddrama weithio'n fwy effeithol. Ond un gair o glod hollol haeddiannol i gloi. Roedd y plant – Iolo Ifans, Ffion Harries, Sara Ifans a Rhodri Llywelyn yn wirioneddol dda, ac yn eu perfformiadau aeddfed a sicr mae gobaith am ddyfodol hyd yn oed mwy disglair i'r cwmni.**

**B.E.**


**HYSBYSEBU**

Mae hysbysebion bach y Dinesydd yn ffordd dda o werthu eich eiddo neu wasanaethau. Byddai blwch o'r maint yma'n costio £10. Cysylltwch â ni nawr i sicrhau lle yn y rhifyn nesaf.


# Dathlu Gŵyl Dewi

'Cyngerdd Mawreddog' BBC Cymru oedd cyngerdd yr ŵyl yn Neuadd Dewi Sant ac fe'i teledwyd yn fyw ar BBC Wales ac ar S4C. Oherwydd y teledu roedd y neuadd wedi'i addurno er mwyn torri ar yr undonedd sy'n nodweddiadol o'r awditoriwm. Y gwir amdani yw nad oes dim o fewn y neuadd i ddangos mai o brifddinas Cymru y daw'r gweithgareddau.
Ar y noson hon boddwyd y neuadd mewn cennin Pedr ac fel cefnlen gwelwyd delwedd tair cenhinen Pedr anferth wedi'u hamgylchynu gan gannoedd o sêr.
Cyfres o eitemau oedd y cyngerdd heb gyflwynydd o fath yn y byd. Gwahoddwyd tri chôr i berfformio ynghyd â thri unawdydd. Cyfeiliwyd gan Gerddorfa BBC Cymru dan gyfarwyddwyd Owain Arwel Hughes.

Roedd presenoldeb Clwyd yn gryf iawn – Côr Meibion Froncysyllte, Cantoresau Sirenian, Parti'r Ffin, Sioned Williams y delynores ac, wrth gwrs, Owain Arwel Hughes o dras enwog y Rhos. O'r gogledd y deuai'r ddau unawdydd Mary Lloyd Davies a Bryn Terfel.

Roedd y grŵp Ar Log yn fwy cymysg o ran cefndir ac felly'n fwy nodweddiadol ohonom.

Cymysgedd ddiogel oedd y rhaglen. Cawsom wylio Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech, arogli'r Blodau ger y Drws, aros ar y 'mynyddau mawr', dilyn 'Y Pysgotwyr', teithio i 'Gwm Pennant' a chysgodi rhag 'Y Dymestl'. Er i'r unawdwyr a'r corau wneud eu gorau glas caent eu boddi'n aml gan seiniau'r gerddorfa.

Ymysg y perlau oedd datganiad merched Sirenian, Salm y Genedl gan Barti'r Ffin, canu digyfeiliant Froncysyllte ac Adagio John Thomas i delyn a cherddorfa. Cafwyd hefyd ddatganiad bywiog o waith comisiwn i gerddorfa gan Brian Hughes – un arall o Glwyd.

Daeth yr hyrdigyrdi o raglen i ben gyda threfniant soffistigedig a theatrig gan Peter Hope o "Bantyfedwen". Er cystal y trefnu a'r hwyl wrth ddatgan rhaid i mi gyfaddef i mi gael y peth yn anweddus a braidd yn ddichwaeth.

O'r hyn a glywais roedd mwyafrif llethol y gynulleidfa lawn yn ddi-Gymraeg ac roedd hynny'n galondid. Roedd y Tafia mewn arall fyd.

**WL**

# BYWYD YN VAIL, COLORADO

**Mae'r prinder eira yn Ewrob eleni a thros y tair blynedd diwethaf yn ôl rhai arbenigwyr yn dystiolaeth o'r effaith 'tŷ gwydr' ar yr amgylchfyd. Un peth sy'n sicr does dim tŷ gwydr yn gorwedd dros fynyddoedd y Rockies lle mae'r eira yn drwch. Ac yma bûm yn gweithio ers haf diwethaf.**

Yn rhyfedd iawn dod i Vail, Colorado i chwarae rygbi wnes i. Mae'r gêm yn boblogaidd yma a'r safon yn foddhaol iawn. Ond gyda'r tywydd oer yn dechrau yn mis Hydref mae'r tymor rygbi yn dod i ben a'r sgio yn dechrau. Dyma wnaeth fy mherswadio i aros yma drwy'r gaeaf.

Gorwedd pentref Vail mewn dyffryn rhyw gan milltir i'r gorllewin o Denver wyth mil o droedfeddi uwchben lefel y môr. Mae hyn yn uchel o'i gymharu ag ardaloedd sgio yn Ewrob gan fod pegwn y mynydd sgio yn cyrraedd uchder o 11,500 troedfedd, ac felly mae eira yn sicr yma. Mae ffrynt cyson sy'n dechrau yn y Môr Tawel yn sgubo dros dalaith Colorado ac yn rhoi'r tywydd sgio perffaith am chwe mis o'r flwyddyn.

Bydd unrhyw ymwelydd ddaw i Vail am y tro cyntaf yn cael ei blesio gyda holl drefn y pentref. Dim ond y gorau sydd i'w gael yn Vail. Y rheswm pam fod tocyn sgio yn $36 y diwrnod yw fod y gofal o'r mynydd yn fwy nag unrhyw le arall yn y byd. Maent yn sicrhau amodau sgio gwych bob amser. Maent yn cynnig cyfleusterau meddygol o'r radd flaenaf i unrhyw un gaiff ddamwain ar y mynydd ac mae ganddynt dros 700 o hyfforddwyr gwych i helpu 'da unrhyw broblemau technegol sydd gan y sgiwr. Ond yn bennaf mae dros 4,000 acer o sgio i'w gael yn Vail.



Dechreuodd y broses o adeiladu Vail yn 1962 ac mae wedi'i fodelu ar bentref o'r Alpau. Mae llawer yn ei weld braidd yn blastig ond mae'r pentref wedi'i gynllunio'n ofalus iawn heb unrhyw berygl gorlenwi'r dyffryn gydag adeiladau. Mae'r pentref yn cynnig gwasanaeth gwych ac yn osgoi unrhyw ddrwg – deimlad rhwng sgïwyr a'r bobl lleol. Hwylustod yr ymwelydd a'r sgiwyr yw'r cyfan.

Un peth sy'n sicr mae angen swm sylweddol o arian i dreulio gwyliau yma. Mae'r cylchgronau sgio i gyd yn rhoi lle cynta i Vail cyn unrhyw ardal sgio arall yng ngogledd America; hyd yn oed o flaen Aspen sydd hefyd yn denu yr enwog a'r cyfoethog. Yma i Vail daw Jimmy Connors. Mae Jack Nicklaus, y golffwr, hefyd yn ymwelydd cyson. Mae pobl lleol yn tueddu anwybyddu pobl enwog oherwydd eu bod mor gyfarwydd. Nid yw'n beth rhyfedd i gwrdd â'r cyn Arlywydd Gerald Ford wrth sgio. Mae e'n byw yma'n awr. Felly, mae gweithio yma drwy'r tymor sgio yn dod â rhywun yn agos iawn at gymdeithas wahanol iawn.



Mae yna naid enfawr rhwng y bobl sy'n byw yma a'r bobl sy'n dod yma ar eu gwyliau. Mae'r costau byw yn uchel o'u cymharu â'r cyflogau. O'i gymharu ag Ewrob y gweithwyr sy'n gwneud yr arian mawr yna yw'r rhai sy'n gweini. Mewn tŷ bwyta poblogaidd gall gweinydd da ennill bron i wyth cant o ddoleri yr wythnos. Y rheswm am hyn yw'r agwedd Americanaidd tuag at roi cildwrn. Yr arfer yma yw rhoi cildwrn o 15% o leiaf. Gan fod ennill yr arian mawr wedi ei gyfyngu i'r tymor sgio mae nifer o'r rhai sy'n gweini yn treulio'r haf yn mwynhau bywyd heb ddiwrnod o waith. Gall y bywyd di-bryder hwn bara am flynyddoedd ac mae llawer yn methu dod allan o'r arfer.

Ond yn ôl at y rheswm dros fodolaeth y pentref. Yn wahanol i Ewrob gwelais safon y sgiwyr yn uchel ar y cyfan gyda mwy o bobl yn medru sgio'n dda nag sydd o bobl sy'n sgio am y tro cyntaf; enghraifft o'r 'hype' Americanaidd. Mae mwyafrif y teuluoedd dosbarth cefnog yn cymryd gwyliau gaeaf mewn ardal sgio a'r plant yn dechrau dysgu mor gynnar â deunaw mis. Dim rhyfedd felly fydd gweld nifer fawr o'r genhedlaeth nesaf yn derbyn sgio fel rhan bwysig o'u bywydau.

Mae Vail yn enwog am fwy na'r sgio. Wrth i'r haul ddisgyn tu ôl i'r mynyddoedd mae gwahanol fath o fywyd yn dechrau byrlymu. Mae dewis gwych o lefydd bwyta i apelio at bawb, ac ar ôl pryd o fwyd gall y teulu fwynhau taith o gwmpas y pentref mewn cart a cheffyl. Hefyd, mae nifer o lefydd i bobl ifanc fynd i fwynhau a chwrdd â ffrindiau newydd.

**Daw'r Pasg yn hwyr eleni ac fe fydd y tymor sgio yn parhau tan Ebrill yr ugeinfed. Dyna pryd fydd pawb yn storio'u sgis tan y tymor nesaf. Fe fydd yr eira'n toddi ac yn rhoi digon o ddŵr ffyrnig i'r afonydd. Dyma fydd dechrau'r tymor rafftio sy'n denu miloedd bob gwanwyn. Fydd hi'n amser i fi ddychwelyd i Gymru ond yn fy nghof mae atgofion melys o dreulio gaeaf yn sgio yn Vail Colorado.**

**Rhodri Williams**


**TELYN**

Grecian Errard i'w chael ar rent am flwyddyn £25 y mis.
Ffôn – Caerdydd 564794

# AIL AGOR ORIELAU CELF

Erbyn daw hwn o'r wasg bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru eisoes wedi ailagor yn orielau celf yn Asgell Ddwyreiniol Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar Fawrth 28 ain. Hir yw pob ymaros, ond mae wedi bod fel oes i'r sawl sydd wedi bod yn edrych ymlaen at agor yr orielau, er mai prin tair blynedd sydd wedi iddynt gau. Caewyd yr orielau fel cam cyntaf datblygiadau fyddai'n costio tua £24 miliwn. Yr ail ran fydd paratoi dwy oriel arall i'w hagor ym 1991, ac yna ddwy oriel ychwanegol yn 1993. Bydd rhain yn yr estyniad mawr yn yr iard y tu cefn i'r Amgueddfa.

Nid pawb heddiw sy'n sylweddoli mai mor ddiweddar â'r tridegau yr adeiladwyd yr Asgell Ddwyreiniol a gynllunwyd gan y penseiri Smith a Brewer. Serch hynny, erbyn hyn roedd y cynllun a'r cyfleusterau yn anaddas ar gyfer heddiw, ac ar ben hynny rhaid oedd atgyweirio'r to. Partneriaeth Alex Gordon sydd wedi bod wrthi'n cynllunio, ac fe honnir ei bod wedi dilyn syniadau Smith a Brewer yn glos iawn wrth wneud hynny.

Bwriedir trefnu orielau'r Asgell Ddwyreiniol fel hyn –

ORIEL 1 – Celf Ffrengig ac Eidalaidd 17 ganrif – sef y cyfnod tirluniau clasurol.
ORIEL 2 – Celf Brydeinig, yr Isel-Diroedd a Fflandrys 16-17 ganrif.
ORIEL 3 – Cartwnau Rubens (ie, dyna nhw!).
ORIEL 4 – Celf Brydeinig ac Eidalaidd – 18 ganrif.
ORIEL 7 – Peintiadau cyfnodau Victoraidd ac Edwardaidd.
ORIEL 8 – Celf gyfoes ryngwladol.
ORIEL 9 – Detholiadau o'r casgliad enfawr o ddyfrlliwiau, printiadau a lluniadau.
ORIEL 10 – Celf Canol Oesoedd a'r Dadeni.

Heb wybod beth yw'r cynlluniau ar gyfer trefnu yr orielau ychwanegol pan ddônt i fod yn 1991 a 1993, yr ymateb cyntaf yw gofyn pam nad yw celf Gymreig yn cael oriel iddi'i hunan. Y mae gweithiau Cymry, a rhai sy'n berthnasol iawn i ni fel cenedl wedi eu gosod yma ac acw yn yr orielau uchod (Prydeinig) yn ôl eu cyfnod. Dywedir rhai ymgais yw hyn i'w gosod mewn cyd-destun â gweithiau eraill.

Yn Oriel Genedlaethol yr Alban yng Nghaeredin trefnir y gweithiau yn yr orielau fel mai peintiadau Albanaidd sydd yn oriel 1, 3 a 5, a phrintiadau a lluniadau yn 2. Y mae yna dystiolaeth erbyn hyn fod yna ddigon o weithiau cynhenid Cymreig ar gael sy'n haeddu neilltuo fel ein bod ni fel Cymry, a phobl y byd yn eu gweld ar wahân. Nid yw hyn yn rhwystr rhag rhoi peth o'r gweithiau mewn cyd-destun â chyfnod rhoi'r cyfle i'w hystyried, ac i ddysgu amdanynt fel uned, heb fod dim arall yn tynnu'r sylw.

Y mae hefyd angen dybryd am gatalog cynhwysfawr o'r holl beintiadau sydd yn y casgliad. Cyhoeddwyd yr unig gatalog o beintiadau olew sydd ar gael yn ôl ym 1955, ac wedi hynny y cyhoeddiadau am gasgliad y chwiorydd Davies, a chasgliad Derek Williams (1989). Yn ôl y frawddeg gyntaf yn y rhagarweiniad i gatalog 1955, pwrpas sefydlu Amgueddfa Cenedlaethol Cymru oedd i ddysgu'r byd am Gymru, a'r Cymry am eu gwlad eu hunain, sydd yn gosod amcanion sylfaenol wrth ymroi i ffurfio casgliad o luniau.

Dros dro mi fyddai catalog o weithiau Cymreig yn dderbyniol iawn. Mae'n gywilyddus nad oes un ar gyfer ysgolion heb sôn am y cyhoedd. Yr esgus o hyd yw prinder arian – ond bobl annwyl, sylwch ar y £24 miliwn, sy'n sicr o fynd yn fwy, sy'n cael ei wario ar yr adeiladau. Tybed nad edrych trwy lygaid Prydeinig o hyd y mae'r arbenigwyr yn yr adran Gelf, ac nad oes adnoddau i ymchwilio i hanes a chyd-destun artistiaid Cymru. Amhosibl gwneud hyn heb wybodaeth o'r iaith, llenyddiaeth, traddodiadau ac ati.

Wedi dweud hynny, croeso mawr i'r orielau newydd ac edrychwn ymlaen at oriau o fwynhâd ynddynt.




## HYSBYSEBU

Mae hysbysebion bach y Dinesydd yn ffordd dda o werthu eich eiddo neu wasanaethau. Byddai blwch o'r maint yma'n costio £10. Cysylltwch â ni nawr i sicrhau lle yn y rhifyn nesaf.


## CYDYMDEIMLAD

'Anodd credu, anodd deall' meddai llawer ohonom ni wrth glywed am newyddion trist a dyna'r ymadrodd a glywyd droeon yng Nghaerdydd ar ôl marwolaeth dwy ferch hynaws, Eiddwen Edwards a Gwenda Lewis, yn ystod y deufis diwethaf. Bu farw'r ddwy yn frawychus o sydyn o fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd yn Ysbyty Felindre gan adael teuluoedd a llu o gyfeillion i hiraethu amdanynt.

Y ddolen gyswllt rhwng y ddwy oedd tref Aberystwyth. Yno yr oedd Eiddwen yn byw gyda'i gŵr, Dr Gareth Edwards, sy'n adanabyddus yn y ddinas a thrwy Gymru fel Cyfarwyddwr Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg. Ac yn Ngholeg Aberystwyth yr addysgwyd Gwenda cyn iddi ymuno â Staff Coleg Cyncoed a channoedd o fyfyrwyr yn cofio amdani. Ar ôl cyfnod dramor fe ddaeth hi a'i gŵr, John, i gartrefu ym Mhenarth ac oddi yno bwriodd ati yn egnïol i weithio gyda Chymdeithas Cyn-Fyfyrwyr ei hen Goleg. Cofiwn y ddwy fel cymeriadau cryf, hoffus ac ymroddgar gan gofio hefyd am eu gweddwon a'u plant yn eu trallod.

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU



# GŴYL HEN GALAN MAI

Gŵyl Genedlaethol
o grefftau traddodiadol,
chwaraeon ac adloniant

**4 - 7 MAI 1990**

gan gynnwys Gwyl Fai
10.00am - 7.00pm bob dydd

*Atyniadau yn cynnwys*

Codi'r Fedwen Fai

*

'Cadi Ha' - Cornel y Plant

*

Arddangosiadau Crefft

*

Adloniant Amrywiol ym
Mhafiliwn yr Ŵyl

*

Arddangosfa 75 Mlwyddiant
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched

*


Stondinau ac Arddangosfeydd

Diwrnod i'r brenin a'r teulu yn
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
Un o Amgueddfeydd Awyr Agored pennaf Ewrop

Yn ystod Gŵyl Fai mynediad o gyffordd 33 M4 yn unig

# ORIEL

**ORIEL – arbenigwyr mewn llyfrau o Gymru, llyfrau i ysgrifenwyr, llyfrau celf a barddoniaeth yr ugeinfed ganrif. Nawr mewn safle newydd, nid nepell o Heol y Frenhines.**




Yr ydym hefyd yn cadw llyfrau ar arlunio, pensaerniaeth, y cyfryngau, y sinema, cardiau, posteri a chasetiau. Prynwch dros y ffôn – derbynnir cerdyn credyd.

Oriel
Heol Tŷ'r Brodyr
Caerdydd CF1 4AA
☎ 0222-225855

# DETHERIDGE

## DYLUNIO A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

*FEL cwmni mae gennym dros ddeng mlynedd o brofiad mewn dylunio a chysylltiadau cyhoeddus. Ers 1979 rydyn ni wedi ymdrechu i gadw'n cwsmeriaid mewn cysylltiad â'r datblygiadau yn y diwydiant cyffrous hwn.*

*CAM bach yw cyrraedd y gynulleidfa rydyn ni'n anelu ati drwy ddefnyddio cyfuniad o ddulliau marchnata. Nod marchnata Detheridge yw bod yn hyblyg a gallu ymateb i'ch holl anghenion.*

*GADEWCH i ni'ch helpu i lunio'ch dyfodol ac ateb eich gofynion dylunio a chysylltiadau cyhoeddus.*

*RYDYN ni yng nghanol Caerdydd – wrth law i helpu amrywiaeth fawr o gwsmeriaid gwahanol, o fusnesau sy'n dechrau i gyrff cenedlaethol a rhyngwladol.*



**DETHERIDGE CYFYNGEDIG 93 Cowbridge Road East · Caerdydd CF1 9AF ☎ (0222) 223525 Fax: (0222) 383760**


# PARC BRYN BACH

**Ym Mharc Bryn Bach rhwng Rhymni a Thredegar lle bu pyllau glo a gweithfeydd dur ar un adeg, bydd gweithgareddau tra gwahanol ym mis Awst pan gynhelir Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni ar y safle. Mae traddodiad canu ac eisteddfodol gwych yn y cwm, ond efallai nad yw mor hysbys bod traddodiad eisteddfodol cyfoethog yn yr ucheldir diwydiannol lle bydd maes y brifwyl eleni – ac yn arbennig ym mhentref cyfagos Tafarnau Bach.**

Ymhlith y plant a fu'n cystadlu'n llwyddiannus yn eisteddfodau Tafarnau Bach yr oedd dwy ferch – sef Gwyneth Jones a Janet Price – ac fe ddaeth y ddwy wedyn yn gantorion byd enwog. Un a aned yn Nhafarnau Bach ym 1916, i fod yn fanwl gywir, yw cyn-arweinydd Côr Meibion Orffews Tredegar, Mr Ieuan L Davies, sydd yn awr yn byw yn Nhredegar. Ysgrifennodd lyfr am y pentref, "Tafarnau Bach, Memories of a Welsh Village". Bellach fe gyfieithwyd y llyfr a bydd argraffiad Cymraeg yn ymddangos cyn y brifwyl.

Dywedodd Mr Davies, sy'n gerddor o fri, fod safonau eisteddfodau Tafarnau Bach yn uchel iawn, ac o ganlyniad, bu'n rhaid cael rhai o'r beirniaid gorau posib. Yn eu plith 'roedd y Dr J Morgan Lloyd a'r

*Parhad tudalen 15*




*GAN DYFRIG JONES, RHIWBEINA*




Bengal
BRASSERIE

Rydyn ni'n falch o allu'n prif gogydd i greu amrywiaeth eithriadol o fwydydd Indiaidd. Caiff yr amrywiaeth ar ein bwydlen ei dewis yn ofalus o blith bwydydd rhanbarthol. Fe fwynhewch brofiad blasus cofiadwy.

BENGAL BRASSERIE
147 COWBRIDGE ROAD EAST
TREGANNA, CAERDYDD CF1 9AH
☎ 0222 226687/226715

EISTEDDFOD
GENEDLAETHOL CWM RHYMNI
Awst 4-11 August 1990
Parc - Bryn Bach - Park
Rhymni



Cofiwch fod yno!
Don't miss it!

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CWM RHYMNI
RHYMNEY VALLEY NATIONAL EISTEDDFOD
TEL: (0443) 821677

# Berlin Ddoe a Heddiw

Rown i'n digwydd bod ym Merlin gyda pharti o ieuenctid pan godwyd y wal ym 1961. Cofio'r gwewyr. Cofio'r rhannu a'r rhwygo. Cofio'r ymffrost ei bod yn fur i bara am fil o flynyddoedd. Fis Bach eleni roeddem yno eto a'r mur yn chwalu. Fe barhaodd dipyn llai na'r disgwyl! Tra mae llawenydd mawr fod y wal wedi ei bylchu, yn sicr, mae yno grafu pen uwchben problemau sy'n codi oherwydd y newid. Clywsom am deulu a fu'n disgwyl am unmlynedd-ar-bymtheg am gar. Wedi safio digon o arian i'w brynu, rhagor na deng-mil-ar-hugain o farciau Dwyrain yr Almaen. Gan mai nifer penodol o geir a ganiateir i ddod i'r wlad, rhaid eu dogni a'u rhoi i'r rhai a ystyrir yn bwysig. Pryder y teulu na chadd y car, ond sydd â'r arian yn y banc yw hwn, gyda'r siarad am uno'r ddwy Almaen yn gry, y dybiaeth yw mai arian Gorllewin yr Almaen a dderbynnir. Ni ellir gneud dim arall am fod y Farc Orllewinol mor gry' ar farchnadoedd y byd. Os hynny bydd arian Dwyrain yr Almaen yn ddiwerth neu yn isel mewn gwerth, a dyna'r hyn a safiwyd yn ddygn am flynydde gan y teulu hwn yn diflannu. Ac y mae'r pryder yna yn golygu fod na ryw ddwy fil y dydd yn gadael y Dwyrain. Yn wir, mae'r gwaedu mor enbyd nes bo rhai ysbytai, ffatrioedd a gwasanaethau cyhoeddus yn methu â gweithio. Colli eu gwŷr proffesiynol. Fe'u llyncir yn hawdd yng Ngorllewin yr Almaen, galw mawr yno am rai proffesiynol, ac wrth gwrs, mae'r cyflogau gymaint gwell mewn gwlad sy'n llifeirio o laeth a mêl. Bydd raid gneud rhywbeth yn ddioed i atal y llifeiriant o'r wlad a go brin fod undim llai nag uno'r ddwy Almaen yn mynd i setlo'r cwestiwn yna. Ar hyn o bryd maent yn hwyrfrydig i ddweud dim am yr yfory am fod etholiadau yno ganol y mis hwn, ac y mae'r dyfodol yn llaw y sawl a ddewisir i lywodraethu. Ond rhaid cofio fod y cam yma mewn democratiaeth yn gam newydd iawn iddynt. Ni thramwyodd y mwyafrif y ffordd hon o'r blaen ac y mae yna gryn bryder wrth wynebu'r blwch pleidleisio.

Pan oeddem ni yno ym 1961 cawsom seiat â gweinidog ar y ffin. Pan godwyd y wal rhwygwyd ei blwy. Ac fel y digwyddodd roedd eglwys y plwy yn y Dwyrain, felly ni allai y rhai a drigai yn y Gorllewin gerdded i'r oedfa fel arfer. Y wal yno. Er eu bod yn y gymuned, wedi'r wal, dwy gymuned, ac os oedd un o'r Gorllewin am ffonio un yr ochor draw i'r wal, nid galwad leol mohoni bellach. Er eu bod yn medru gweld tai ei gilydd rhaid oedd gyrru'r neges ar y gwifrau am gannoedd o filltiroedd i fan lle y'i hail gyfeirir yn ôl i Ddwyrain Berlin. Pellter o ryw filltir rhyngddynt yn naturiol yn cael ei chwyddo i gannoedd, oherwydd y wal. Pan ddaeth y DDR i fod torrwyd ar yr hen drefniant o gynnal yr eglwysi. Y drefn yn Yr Almaen oedd fod pob un a ddymunai yn medru rhoi cyfran o'i dreth incwm at waith yr eglwys, *y Dreth Eglwysig*, fel y'i gelwir. A'r gronfa hon sy'n talu gweinidogion, cynnal adeiladau, cefnogi gwaith ieuenctid etc. I raddau gellir ystyried yr eglwys fel adain o'r llywodraeth. Diddymwyd y drefn yna gan y DDR. Ni allai llywodraeth na chredai mewn Beibl na Christ hybu y rheiny. Yn wir, ceisiwyd codi'r plant a'r ieuenctid yn addysg ac athrawiaeth y Marcsiaid. Felly, wrth agor y wal a'r plwyf yma eto yn medru adfer ei undod hen, dyw hi ddim yn hawdd. Dwy genhedlaeth wedi eu codi mewn awyrgylch wrth Gristnogol ac wedi ymddieithrio. Er hynny yn y plwy hwn ma na ymgais yn cael ei 'neud i fagu perthynas newydd ac y maent yn dechrau gyda dosbarth y cymunwyr ifainc. 'Na chi ddosbarth i fod ynddo, Dwyrain a Gorllewin yn dod ynghyd. Dwy sustem wyneb yn wyneb, dwy ffordd o fyw yn ymgiprys. Mae'n haws rhannu na chyfannu, onid yw? A ma dadwneud yr hyn a ddigwydd oddiar 1961 yn waith dygn iawn, eto mae wedi dechre yn y gyflym.



*Esyllt yn y mur!*

**T J Davies**



*W J Edwards Llanuwchllyn, Esyllt a TJ ger porth Brandenburg.*

# Adfer hen enw Cymraeg yn y Rhath

Rai misoedd yn ôl fe nodwyd yn y Dinesydd fod ysgol feithrin newydd wedi ei chychwyn yn ardal Penylan a'r Rhath. Mae'n dda gallu nodi ei bod yn mynd o nerth i nerth. Ond mae'n dda gallu dweud hefyd ein bod wedi cael gwared ar y llond pen o enw oedd gennym – 'doedd Ysgol Feithrin Penylan a'r Rhath ddim yn llithrig iawn, ond mi roedd yn disgrifio ein dalgylch o leiaf. Bellach mae gennym enw Cymraeg hyfryd, sef Ysgol Feithrin Nant Lleucu. 'Dyw hwnnw ddim yn dis-

*Parhad trosodd*

# "SIOPA AM FWYD"

**Mae coffi heb gaffîn yn agos i 30c yn ddrutach na coffi cyffredin, meddai adroddiad newydd 'Siopa am Fwyd' a gyhoeddwyd ar ddechre mis Mawrth gan Gyngor Defnyddwyr Cymru. Dengys yr arolwg fod bara blawd cyflawn gymaint â 10c yn ddrutach na bara gwyn wedi ei sleisio ag mae cig eidion heb fraster ag wedi friwio (mins) hyd at 62c y pwys yn ddrutach na briwgig cyffredin.**

'Mae'r defnyddiwr yn pryderu mwy am ei iechyd ac yn dewis bwyta'n iachach' meddai Mrs Rhiannon Bevan, Cadeirydd CDC. 'Dros y 30 mlynedd diwethaf 'rydym wedi gweld mwy a mwy o bobol yn dewis deiet isel mewn braster. Ond dengys ein harolwg ni bod y bwydydd sydd eu hangen ar gyfer deiet iach ar y cyfan yn ddrutach na bwydydd cyffredin.'

Dengys ymchwil annibynnol y CD fod pobl ar incwm isel yn dewis bwyd ar sail côst yn hytrach nag ar sail yr hyn sy'n iach. Teimla'r cyngor yn gryf na ddylai teuluoedd ar incwm isel gael eu rhwystro rhag mwynhau deiet iach, naill ai ar sail côst na dewis cyfyngedig.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar arolwg a wnaed ym Medi '88 o 111 o siopau mewn ardaloedd megis Caerdydd, Wrecsam, Llanfyllin, Hwlffordd, Pwllheli a Llanbedr Pont Steffan. Arolygwyd 57 o eitemau bwyd a dewiswyd basged siopa o 30 a eitemau, o'r rhain, dewiswyd yr eitemau 'iach' ar ôl ymgynghori ag arbenigwraig maeth bwyd Awdurdod Hybu Iechyd Cymru.

Yr ardaloedd o Gaerdydd fu'n rhan o'r ymchwil oedd Trelai ag Albany Road. Gwelwyd fod yma wahaniaeth dybryd mewn prisiau – rhwng y siopau mawrion (archfarchnadoedd, arch storfeydd ag hyperfarchnadoedd) a'r siopau llai. Ar gyfartaledd 'roedd y fasged siopa mewn siopau bychain £1.93 yn ddrutach nag mewn siopau mawrion – ond roedd y gwahaniaeth rhwng yr archfarchnad ac un siop bychan annibynnol cymaint a £5.19. Serch hynny – 'roedd cryn amrywiaeth mewn pris o fewn pob categori o siop.

Mae'r adroddiad yn dangos fod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn diodde yn arw – does ganddyn nhw mo'r dewis helaeth o fwydydd, na'r dewis o fwydydd iach, ag mae cost y bwydydd yn aml yn uwch. Os ydi pobl ardaloedd gwledig eisiau bwyta'n iach mae'n rhaid teithio i'r archfarchnad agosa – dyna ychwanegu costau teithio at bris y bwyd.

Dydy fawr o syndod fod gan siopau llesol a chydweithredol amrywiaeth helaeth o nwyddau ond problem arall sy'n effeithio ar ba fwydydd sydd ar gael yw'r ffordd y mae'r farchnad fwydydd £40 biliwn yn cael ei sianelu fwyfwy i lai o siopau. Ar hyn o bryd mae 6 prif gwmni yn arglwyddiaethu ar farchnad fwydydd gwledydd Prydain. Rhyngddynt maen nhw'n cyfrif am 70% o'r farchnad. Os pery'r tueddiadau presennol – erbyn 1995 rhagwelir mai dim ond 3 chwmni fydd yn rheoli 75% o'r farchnad fwyd ac mi fyddan nhw'n *dewis beth i'w gynnig i'r defnyddiwr, ac am ba bris!!*

Mae'r adroddiad 'siopa am fwyd' i'w gael oddiwrth Gyngor Defnyddwyr Cymru, Castle Buildings, Womanby Street, Caerdydd CF1 2BN, pris £1, ag mae'r adroddiad llawn yn Saesneg i'w gael o'r un cyfeiriad – pris £3.00.

*Parhad Rhâth*

grifio'n dalgylch o gwbwl, ond y mae'n ffordd o adfer hen enw Cymraeg ar yr afonig fach sy'n llifo allan o Lyn y Rhath ac o dan Heol Penylan, trwy erddi Waterloo. Ar un adeg, roedd yna felin yn y patshyn hwn hefyd, a bwydo hen Felin y Rhath a wnai Nant Lleucu. Dyna sut y daeth yr enw Saesneg arni – Roath Mill Brook.

Gobeithio y gwnaiff plant yr ysgol fwydo tamed bach o Gymreictod nôl i'r ardal hon, ta beth.

Am fod yr ysgol yn cynyddu yn ei nifer mor sydyn, mae arnom **angen cynorthwydd i helpu'r athrawes ar frys.** Mae'r ysgol yn cyfarfod am bedwar bore'r wythnos ar hyn o bryd, ond fe fydd yn cynyddu i bum sesiwn ym mis Medi. Mae hi'n ysgol fach braf iawn, a dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymgymryd â'r gwaith hwn gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgrifenyddes. Ei henw hi yw Shân Baker, a gallwch gysylltu â hi ar 486832, neu yn 91, Westville Road, Penylan.

# LLYTHYRAU

## ANNWYL DINESYDD

Yn yr erthygl ar "Cwtogi yn yr Amgueddfa Genedlaethol" yn rhifyn Mawrth o'r Dinesydd, y mae dau dabl, y naill ar dâl mynediad a'r llall ar gost mynediad i ganghennau'r Amgueddfa Genedlaethol. Wrth droed y tablau ceir yr ôl nodyn, "Y mae'r ffigyrau hyn yn siwr o godi nifer o gwestiynau ym meddwl rhai ohonom". Cytunaf yn llwyr, oherwydd y mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y tablau, naill ai'n anghywir neu'n anghyflawn. Y tâl mynediad i Amgueddfa Dwydiant a Môr Cymru yw Oedolion £1.00 (nid £2.50). Plant 5-16 (nid 1-15) 50c, (nid £1.20) Pensiynwyr a di-waith 75c (nid £1.40), Teulu £2.50 (nid £6.50). Y mae'r tâl mynediad i deulu i Barc Cathays ac i Amgueddfa Werin Cymru wedi ei hepgor, sef £2.50 i'r naill a £7.50 i'r Amgueddfa Werin.

Y mae Tabl 2 ar Gost Mynediad wedi ei seilio yn llwyr ar y wybodaeth anghywir yn Tabl 1 ac oherwydd yr holl amryfusedd y mae'r wybodaeth a gyfwynir yn Tabl 2 yn gyfeiliornus hefyd.

Does dim sôn chwaith yn yr erthygl fod tocyn tymor ar gael i bob un o ganghennau'r Amgueddfa Genedlaethol. Am bum punt gallwch ymweld â'r Amgueddfa yn Mharc Cathays faint fynnoch chi dros gyfnod o flwyddyn.

Yn gywir

**John Bevan**
**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**

## ANNWYL DINESYDD

**Teimlwn reidrwydd i ymateb i'r erthygl ddi – enw dan y pennawd "Taflen Ar Gau" a ymddangosodd yn rhifyn Mawrth o'r Dinesydd.**

Fel cyn-Gadeirydd a chyn-Ysgrifennydd Pwyllgor Rheoli Canolfan yr Urdd Caerdydd am rai blynyddoedd gallwn hawlio fod wedi bod yn rhan o'r weledigaeth wreiddiol i sefydlu Taflen (a tydi'r enw yn un da). Da o beth efallai fyddai esbonio beth oedd y bwriad gwreiddiol – ceisio ffordd o sicrhau elw ychwanegol i gynnal Canolfan yr Urdd. Ac mae unrhyw un fu a sydd ynghyd â'r gwaith o geisio gwneud hyn yn ymwybodol o bwysau'r baich. Dyna'n fyr y cefndir.

Ie, tristwch mawr oedd gweld drws Taflen yn gorfod cau, yn arbennig felly o ystyried ymroddiad y cyfarwyddwyr gwirfoddol i'r fenter newydd yn nghanol y ddinas. Dyw cydymdeimlad ddim yn ddigon i gadw drws siop ar agor – rhaid wrth gwsmeriaid, ac mae'r cyfarwyddwyr i'w llongyfarch ar eu ymdrechion i ddenu cwsmeriaid. Creodd Cen Williams, fel y byddai unrhyw un sydd yn ei adnabod yn disgwyl, gasgliad safonol o grefftau amrywiol – ond ble roedd y cwsmeriaid? Ia – chi ddarllenwyr y Dinesydd – faint o gefnogaeth reolaidd gafodd Taflen gennych ar wahân efallai i'r Nadolig neu benblwydd?

Roedd symud o Heol Conwy i ganol y Ddinas *yn* fenter, rhaid cydnabod hynny. Ond o ystyried popeth ar y pryd roedd yn symudiad arloesol ar ran criw o Gymry. Y tristwch yw na chawsant gefnogaeth gweddill yr 15,000 o Gymry Cymraeg sy'n byw yng Nghaerdydd.

Naïf yw gofyn a geisiwyd cymorth gan Gyngor y Celfyddydau – a chyfaddefiad nad yw'ch colofnydd di-enw yn deall fawr am berthynas Oriel a Chyngor y Celfyddydau. Oni bai am ymrwymiad y deg gŵr busnes fu wrth y lliw byddai drws Taflen wedi cau yn Heol Conwy ddwy flynedd yn ôl. Efallai mai ar ofyn yr Urdd yn ganolog y dylid fod wedi mynd yr adeg hynny, ond o ystyried ysbryd annibynnol Canolfan yr Urdd o'r cychwyn, teg, dan yr amgylchiadau, oedd i Taflen geisio sefyll yn annibynnol o'r canol.

**Wrth gwrs fod pawb yn tristáu o weld y drws ar gau – ond nid yw'r tristwch yn gyfiawnhad dros resymeg wallus a syniadau di-sail eich colofnydd. Efallai yr hoffai roi ei wledigaeth i'r prawf ac agor siop ei hun!**

**John Albert Evans**
**John Walter Jones**

# Y SIWRNE I'R FFINDIR

**Galwad ffôn oddi wrth Prof Roger Sell pennaeth yn Adran Saesneg ym mhrifysgol yr ABO AKADEMI yn TURKU, yr gofyn imi gymryd rhan yn yr wythnos Gymreig,**

Roedd y Gyngor Prydeinig yn gofalu am y treuliau.

Gadael Cymru ar yr 27/1/90, awyren o Heathrow am 13.35, cyrraedd HELSINKI am 18.30, yna awyren arall i TURKU – ugain munud o siwrne, cyrraedd yno am 20.20.

Prof Sell yn aros amdanaf "High heels in Finland?" Edrychais ar fy nhraed. Cås gennyf wisgo sgidie! Pawb arall a dillad trwm a sgidie enfawr.

"We'll take you out to dinner to meet the other lecturers before I take you to your digs."

Wrth fy modd i gwrdd â'r tîm newydd sbon.

Ar ôl pryd o fwyd ardderchog yng nghartref Ant Golinson, darlithydd yn yr adran a oedd hefyd yn chwaraewr jazz penigamp, dyma Prof Sell yn dweud, "I'm afraid I have to take you to your digs" – hanner awr wedi naw!

Ymhen chwarter awr, roeddwn tu-allan i'r BIRGITTALAIS – LUOSTARIN VIERASKOTI lleiandy yng nghanol dinas TURKU.

Wel dyna sioc! Ond croeso mawr oedd yn aros imi. Deg lleian o wyth gwlad, a'r mwyafrif yn ferched ifanc, yn gwmws fel Lowri ni!

Gofynnais iddynt pa beth roeddynt yn colli mwyaf o'r byd y tu-allan – Dawnsio'r TANGO! meddent. Mae'n debyg bod y ddawns yma yn boblogaidd iawn yn y wlad.

Tawelwch mawr ac ystafell hynod o lân, cawod a thŷ bach. Brecwast am wythdim gair i'w glywed; – yr offeiriad, un hen ŵr a oedd newydd ddychwelyd o Lundain ar ôl cael llawdriniaeth ar ei lygaid, a fi.

Am naw o'r gloch dyma fy nhacsi yn cyrraedd a'r wythnos yn dechrau.

Credwch neu beidio, bore cyfan ar hanes y Celtiaid gan AILBHE O'CONNOR – bachgen o Ddulyn – yn gallu siarad Cymraeg yn rhigl ac yn dysgu yn yr Adran Geltaidd ym mhrifysgol UPSALLA, SWEDEN.

Mae'n debyg i AILBHE fod yn "swog" yn Llangrannog ac yng Nglanllyn.

Aeth yr wythnos yn ei blaen gyda Gillian Clarke, y bardd "Anglo-Welsh" yn darlithio ar y Mabinogion, hen ffarddoniaeth a barddoniaeth gyfoes ac wrth gwrs, Dylan Thomas.

Roedd David Thomas, gŵr Gillian, yno yn darlithio ar bensaeriaeth Gymreig – ef a wnaeth gerflun Hywel Dda yn Hendy Gwyn ar Daf.

Fy rhan i yn yr wythnos oedd darlithio ar hanes Cerddoriaeth Cymru ac yn enwedig hanes y delyn. Roedd rhaid perfformio, wrth gwrs. A ble roedd y gyngerdd?

Yn Amgueddfa SIBELIUS ei hun. GWYCH! – yr unig amgueddfa gerddorol yn y Ffindir. Agorwyd yr amgueddfa bresennol yn 1926, pan gafodd Prof Otto Anderson y gadair – "Musicology and Folk Poetry".

Fe gynhelir 30 o gyngherddau'r flwyddyn mewn neuadd hyfryd wedi ei gwneud o goncrid a gwydr. Yr yn amgueddfa mae casgliadau ffantastig, ee Sgôr gwreiddiol CANTATA Sibelius, "Song of the Earth", y geiriau gan JARL HEMMER, 1919. Mae yna fwy na 800 o offerynnau clasurol a gwerin.

**Wel, wythnos hynod o brysur a diddorol, nifer o ffrindiau newydd a digon o wybodaeth i feddwl amdano.**

**Nôl i Gymru fach gan ddiolch i'r delyn annwyl unwaith eto am gadw bywyd menyw ganôl oed yn hynod o gyffrous.**

**Margaret Llwchwr**

---

*Parhad Parc Bryn Bach*

Dr David Evans, (bu'r ddau yn eu tro yn benaethiaid adran gerddoriaeth Coleg y Brifysgol, Caerdydd), D T Davies, Lyndon Hugh, Syr Charles Farncombe a Dorothy Adams Jeremiah.

Cymraeg oedd iaith yr eisteddfodau hyn, ac mae Mr Davies yn cofio'r caneuon mwyaf poblogaidd. 'Roedd y dynion yn canu "Gogoniant i Gymru" a "Gwlad y Delyn", a hoff ganeuon y tenoriaid oedd "Mentra Gwen", "O Na Byddai'n Haf o Hyd" a'r "Hen Gerddor". Trist yw dweud bod eisteddfod Tafarnau Bach wedi dod i ben ynghanol y pum degau oherwydd diffyg cefnogaeth.

Dau gapel Cymraeg oedd yn y pentref, Siloam y Bedyddwyr, a Bryn Seion y Wesleiaid, lle bu'r cyn-archdderwydd Gwilym Tilsli'n fyfyriwr weinidog. Yr oedd rhyw hanner cant a thri o dai yn y pentref, gan gynnwys saith tafarn. Serch hynny, 'dyw Mr Davies ddim yn credu mai oherwydd amlder y tafarnau yr enwyd y lle yn Tafarnau Bach. Gwell ganddo ef yr esboniad fod enw'r lle'n deillio o arfer ymwelwyr i glymu eu ceffylau wrth fachyn yn y tafarnau. Gyda llaw, hen enw'r pentref oedd "Twyn-y-Ddwynant" oherwydd i'r gogledd mae bryniau Trefil Ddu a Blaen Rhymni, sef tarddleoedd afonydd Rhymni a Sirhywi.

Ond beth bynnag yw'r esboniad cywir am enw'r pentref, 'does na'r un lle' yn y byd yn debyg i Fryn Bach i Mr Davies. A phan fydd sŵn y Corn Hirlas yn atseinio ym Mlaen Rhymni, Trefil Ddu a Bryn Oer, bydd llu o atgofion yn dod yn ôl i Ieuan Davies am eisteddfodau a fu, a bydd hefyd yn edrych ymlaen at "fyrdd o ryfeddodau" ym mis awst ym Mharc Bryn Bach.

**CLWB CAM YMLAEN**

Diolch i'r clwb am eu cyfraniad i'r Dinesydd.

D I N E S Y D D

## TRWY'R POST

Os hoffech dderbyn eich copi personol o'r Dinesydd bob mis am y flwyddyn, yn rhad ac am ddim, llenwch y ffurflen yma a'i hanfon yn ôl i Detheridge Cyf, 93, Cowbridge Road East, Caerdydd CF1 9AF

ENW ..........

CYFEIRIAD ..........

COD POST ..........

Amgaeaf siec am £4 .......... i dalu am bostio deg rhifyn yn unig, yn daladwy i "Detheridge Cyf".

# HEL MEDDYLIAU

**Yn ôl Geiriadur y Brifysgol, defnyddiwyd yr ymadrodd "Ffŵl Ebrill" yn Gymraeg am y tro cyntaf yn 1823. Dyna pryd y cyfieithiwyd yr ymadrodd Saesneg mae'n debyg. Roedd ffyliaid Ebrill ar gael yn Lloegr cyn i'r brid ymddangos yng Nghymru, mae'n amlwg.**

Mae ffŵl a ffŵl i'w gael, wrth gwrs. "Yr ydym ni yn ffyliaid er mwyn Crist" meddai Paul (gweler 1 Cor.4,10). Ac fel y gofynnodd y pregethwr hwnnw: "A ffŵl pwy ydych chi?" Er mwyn Cymru? Er mwyn y Gymraeg?

Diddorol yw sylwi mai'r ymadrodd am ffŵl Ebrill yn Ffrangeg ydy *"poisson d'avril"* (pysgodyn Ebrill) pryd y bydd plant bach yn glynu pysgod bach papur ar gefn rhywun y maent am eu cyfrif yn ffŵl. Tybed a oes cysylltiad yma â hen arwydd cudd y Cristnogion cynnar, y pysgodyn? A dyna ni'n ôl at yr Apostol Paul unwaith eto.

### Y BEIC

Pan oeddwn yn weinidog ym Methel Newydd, Garnant arferai diacon ddod i'r capel bob bore Sul ar gefn beic. Awgrymais iddo fod y beic yn gymwynaswr mawr iddo. "Ydi" meddai, "ond cofiwch, mae'n gwneud dyn yn anghymdeithasol iawn. 'Does dim rhaid dweud 'Bw na be' wrth undyn byw wrth fynd heibio. 'Slawer dydd pan fyddwn i'n cerdded i'r capel, fe fyddwn i'n cwrdd â hwn a'r llall a chael cwmni a sgwrs. Ond dim nawr." Ac un yn hoffi cwmni ac yn gwmniwr da ei hun oedd David John Rees.

Os yw beic yn llwyddo i wneud dyn yn anghymdeithasol, pa faint mwy yw'r car? Ac felly, diolch i bob perchennog car, ar fore neu nos Sul, sy'n barod i hebrwng aelod neu aelodau di-gar i'r cwrdd. Siawns nad yw yntau neu hithau yn cael bonws os yw'r cyd-drafeiliwr yn gwmni diddorol.

Mae'n debyg iawn i un o'r storïau am Elfed yn cael ei dywys am dro, ar ôl iddo fynd yn ddall, gan gyfaill iddo ac yntau'n diolch i'r cymwynaswr. "'Does dim rhaid i chi" meddai yntau, "Rwy'n sylwi llawer mwy ar y byd o'm cwmpas i nawr wrth fynd â chi fel hyn, ac yn gweld pethau na welais i eroied o'r blaen."

Mae manteision mawr o fod yn gymdeithasol ac yn gymwynasgar.

### YR YNFYD

Fyddwch chi'n siarad â chi eich hunan weithiau? Byddwch wrth gwrs a minnau gyda chi, ac ym aml. Ond 'does neb arall yn clywed y sgwrs wrth lwc! Sut fyd fyddai hwn, tybed, pe clywid y sgrysiau preifat, preifat hyn? – ein *gwir* farn ni am hwn-a-hwn neu hon-a-hon, ein rhagfarnau ni, ein breuddwydion ac yn y blaen. Ond mae'r cyfan dan sêl, diolch am hynny. Weithiau fe roddir enwau neis ar y siarad-â'r-hunan 'ma fel 'myfyrio', 'meddwl', 'barddoni'(?) ac yn y blaen. Ond siarad â'r hunan ydyw yn y bôn.

Mae sôn yn Llyfr y Salmau am ddyn felly a dod i'r casgliad nad oedd Duw yn bod. "Dywed yr ynfyd *ynddo'i hun,'* Nid oes Duw" (Salm 14,1). Nid dyn drwg mohono meddai'r Salm na dyn anfoesol. Dim scamp o unrhyw fath. "Yr ynfyd" meddai'r Gair. Tybed a fyddai wedi dweud y fath beth pe bai wedi mynd i'r synagog neu l'r Deml? Ar ei ben ei hun yr oedd pan ddaeth i'r casgliad hwn. O leiaf byddai'n rhan o gymdeithas pe bai wedi mynd i un o'r mannau hynny. Mae gennym lawer o le i ddiolch i gymdeithas am ein hachub ni rhag rhai o'n rhagfarnau a'n meddyliau trofaus. A oes perygl weithiau i ni fynd hyd yn oed yn ddi-Dduw ac yn ddi-grefydd dim ond wrth dorri i ffwrdd oddi wrth gymdeithas? Mewn geiriau eraill, teithio drwy'r byd 'ma ar gefn beic. A dyna ni'n ôl at athroniaeth David John Rees yn y Garnant – a'i feic yntau.

**Huw Ethall**

# DARLITHIAU LLANDAF – T.J.

**Dr Thomas Jones C.H. neu T.J. fel y cafodd ei adnabod gan fonedd a gwreng oedd pwnc y ddarlith a draddodwyd ar Chwefror 1.**

Roedd Neuadd Fawr Ysgol Howell, Llandaf, wedi'i llenwi gan gynulleidfa o gynfyfyrwyr Aber a'u cyfeillion i wrando ar y Dr E. Ellis a fu, tan yn ddiweddar, yn uwchddarlithydd yn Adran Hanes y Coleg.

Does neb yn fwy cymwys i sôn am T.J. na'r Dr Ellis gan mai y fe a gafodd gomisiwn gan y teulu i ysgrifennu'r cofiant swyddogol. Cafodd gyfle i bori ymysg y toreth o bapurau a drosglwyddwyd i'r Llyfrgell Genedlaethol ac mae disgwyl mawr am y llyfr safonol sy'n debyg o gael ei gyhoeddi ddiwedd y flwyddyn.

Wrth wrando ar y darlithydd roeddem bawb yn rhyfeddu at ddiwydrwydd a dycnwch T.J. Roedd ganddo fys ym mhob potes o bwys ym mywyd cyhoeddus Prydain ac roedd ei ddylanwad cudd yn rhyfeddod. Cofnodai bopeth a wnâi gyda manylrwydd o'r mwyaf ac mae ei bapurau'n gloddfa o wybodaeth werthfawr am y peiriant llywodraethol oddi ar cyfnod Lloyd George hyd y chwedegau.

Roedd dawn Dr Ellis i roi i ni syniad o amlochredd ei wrthrych yn amlwg ddigon. Drwy ddethol yn ofalus, dewis ei eiriau'n ofalus a thraddodi cynnil ac awgrymog llwyddodd yn feistrolgar i godi cwrr y llen ar gyfnod pwysig mewn hanes ac i'n cyflwyno i berson o gig a gwaed a fu mor ddylanwadol fel 'eminence grise' a weithredai yn y cysgodion.

Fe lwyddodd y Dr Ellis i godi awydd ynom i wybod mwy am y gŵr eithriadol hwn o Gwm Rhymni ac mae disgwyl eiddgar am ffrwyth llafur y bywgraffydd.

Cadeiriwyd y noson yn ddeheuig gan Gareth Price, Rheolwr BBC Cymru a llywydd Cymdeithas Cynfyfyrwyr Aberystwyth. Ymhlith y gynulleidfa, hyfryd oedd cael cwmni merch T.J. sef y Fonesig Eirene White a fanteisiodd ar y cyfle i sôn gair am ei mam.

**Cyn i weithrediadau'r noson ddechrau fe gododd y gynulleidfa am ychydig fel arwydd o barch tuag at y Dr Gwenda Lewis, ysgrifenyddes fywiog cangen Caerdydd o'r cynfyfyrwyr, a fu farw mor ddisyfyd yn ystod yr wythnos.**

**Wynne Lloyd**

**HYSBYSEBU**

Mae hysbysebion bach y Dinesydd yn ffordd dda o werthu eich eiddo neu wasanaethau. Byddai blwch o'r maint yma'n costio £10. Cysylltwch â ni nawr i sicrhau lle yn y rhifyn nesaf.

# Y CALENDAR

**EBRILL . . .**

**4:** Am 7.00 yr hwyr yn Ysgol Glantaf, Llandaf, Caerdydd, EISTEDDFOD Y DYSGWYR MORGANNWG A GWENT. 50c wrth y drws. Rhaglenni yn cynnwys rhestr testunau ar gael nawr!

**4:** Wenglish – Darlith gan John Edwards. Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach.

**4:** Garddio gyda Carys a Patrick Wheelan – Merched y Wawr (Radur).

**5:** Pêl Droed: Cwm Deri v Coed Y Gof – Y Ganolfan Chwaraeon, Gerddi Soffia.

**6:** Cymrodorion Caerdydd yn festri Tabernacl. Ymweliad Cymrodorion y Barri. Cadeirydd: O E Roberts.

**9:** Merched y Wawr Cangen Caerdydd yn festri Minny Street. Noson Ddrama gan John Owen o Ysgol Rhydfelen.

**20-22:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd – Ymweld â chynhadledd flynyddol y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol (ym Mangor).

**22:** Cymanfa Ganu yr Eglwys Fethodistaidd (Cylchdaith Morgannwg) yn Beulah, Rhiwbeina am 6 o'r gloch. Cymanfa'r plant am 2.30. Arweinydd, Mair Roberts.

**25:** Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Siaradwr: Ernest Williams.

**27-28:** Ysgol Ddeuddydd Flynyddol ym Mhrifysgol Cymru, Coleg Caerdydd. 'Y Diwygiad Methodistaidd'. Ffôn 752063.

**MAI:**

**2:** 'Atgofion' gan Mr Elfed David.

**2:** Allan a ni – Merched y Wawr (Radur).

**12:** Cymrodorion Caerdydd: Gwibdaith yng ngofal Ifor Rees.

**14:** Merched y Wawr Cangen Caerdydd yn Festri Minny Street: Noson Gyffredinol. Gwestai: Mr W J Jones.

**23:** Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro: Cyfarfod Cyffredinol.

**MEHEFIN:**

**6:** Hen Drysorau gyda Mary William – Merched y Wawr (Radur).


**HYSBYSEBU**

Mae hysbysebion bach y Dinesydd yn ffordd dda o werthu eich eiddo neu wasanaethau. Byddai blwch o'r maint yma'n costio £10. Cysylltwch â ni nawr i sicrhau lle yn y rhifyn nesaf.


**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN MAI**
**13 – 04 – 90**

# MENNA'N MANYLU



**Mis parod ei gawodydd – mis y tes,**
**Mis y tawch aflonydd,**
**Mis oriog y gog a'r gwŷdd,**
**A mis gwyrddlesni'r meysydd.**

Fel yne mae Ithel Davies yn dadansoddi mis Ebrill ac afraid ydi ychwanegu at ysblander a digwyddiadau blynyddol y mis hwnnw.

Gwyddom fod y Grawys yn dod i'w derfyn wythnos gynta'r mis – a finne fel yr helyw ohonoch mae'n siŵr heb ildio arferion drwg, ymprydio na pheidio yfed/smocio am ddeugain dydd a deugain nos.

Mae Steddfodau Cylch a Sir yr Urdd wedi bod bellach a dim ond mis i fynd hyd nes bydd caeau gwyrddion Glynllifon yn atseinio efo gweithgareddau'r ieuenctid. Gobeithio bydd cynrychiolaeth teilwng o blant o ardal y brifddinas yn cael y cyfle i fynychu'r ardal ac i werthfawrogi a blasu harddwch a Chymreictod cartrefol Dyffryn Nantlle.

Dydw i ddim yn arddreg o bell ffordd (un rheswm ydi nad oes gennai ardd!), ond braf ydi gweld gerddi pobl eraill yn glwstwr lliwgar o friallu, cennin Pedr, bwtsis y gog a llygaid Ebrill. Ers talwm, braf oedd cael mynd yr adeg yma o'r flwyddyn i hel blodau gwyllt yng nghorsydd yr ardal acw yn Llanuwchllyn, a hel grifft llyffaint ar hyd y dolydd i'w cario i'r gornel natur yn yr ysgol, neu drio tyfu llyffantod ym mwtri'r tŷ! Roedd ychydig o gena goig (madfall) i'w cael hefyd yn y nentydd llonydd ond roedd gennai dipyn o ofn eu crafange hyll nhw. Creaduriaid eraill oedd gennai eu hofn yr adeg yma oedd y llwynogod – gan eu bod yn prowla'n llechwraidd yng nghefn y tŷ, yn mynd i'r cwt ieir i chwilio am iâr oedd lond ei chroen a hefyd roedd bygythiad parhaol y byddent yn lladd ŵyn gwan a diniwed.

Gawsochi'ch gwneud yn ffŵl ddiwrnod cynta'r mis? Y gyfrinach gan ei bod yn Sul oedd peidio codi trwy'r bore! Mi weles amal i dro gwneud fy hun yn ffŵl ar ol codi gan ei bod wedi pasio hanner dydd! Mae rhai tricie arferem ni fel plant eu gwneud ar ein rhieni yn aros yn y cof – mynd â phlisgyn ŵy â'i ben i waered iddyn nhw i frecwast i'r gwely; dweud bod carai eu sgidie'n agored; deud fod rhywun ar y ffôn neu 'bobol ddiarth' wrth y drws; pwyntio bys at faw ar jwmper a chodi'r bys i grafu'r trwyn! Roedd y bobol hŷn hefyd yn hoff o dynnu coes ar ddydd ffŵl Ebrill – gyrru potel wisgi'n llawn te oer i'w gilydd neu ddweud bod dafad yn sâl dod ag oen a'u gyrru at *hwrdd* yn gorwedd yn y cae!! Ond yr ore oedd be ddigwyddodd i Ceri, fy chwaer pan ofynnodd John Badell Aur (ei boss yng nghaffi yn y Bala) iddi fynd i'r Fferyllfa i nôl chydig o 'elbow grease' i lanhau'r brasus – hithe'n mynd heb fawr o syniad o'r iaith fain efo punt yn ei llaw! **Ffŵl Ebrill y wir!**

# Menter Addysg Grefyddol

Un o'r problemau mwyaf, os ydych athro neu athrowes yn y sector uwchradd Cymraeg yn y de dwyrain, ydy'r anhawster cael hyfforddiant mewn swydd perthnasol. Mae'r hyn sy'n cael ei ddarparu yn gyffredinol yn ffaelu delio ag anghenion arbennig ysgolion Cymraeg.

O'r herwydd, mae athrawon Addysg Grefyddol wedi mynd ati er mwyn helpu eu hunain. Gyda chymorth Paul Morgan, Swyddog Ysgolion Uwchradd yn y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, maen nhw wedi cyfarfod sawl gwaith dros y tymhorau diwetha i ystyried datblygiadau yn y pwnc. Yn sgîl gwneud hynny, mae cronfa o ddeunydd yn cael ei chreu i'w rhannu rhwng Ysgolion Cwm Rhymni, Glantaf, Gwynllyw, Llanharri a Rhydfelin.

Y tymor hwn, mae cyfres o eitemau ar wyliau crefyddol wedi ei hysgrifennu. Y tro nesaf, bydd y grŵp yn ymweld â llefydd addoli yn y brifddinas, er mwyn paratoi gweithlenni ar gyfer plant sy'n eu harchwilio wrth astudio credoau di-gristion neu enwadau llai adnabyddus.

Sicr gen i, bydd pwysigrwydd y gwaith hwn yn amlwg, wrth ystyried y lle canolog sydd gan y pwnc yn y cwricwlwm seilol. Edrychwn ymlaen at gadarnhau y ddarpariaeth yn ein hysgolion fel canlyniad gwaith y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAGau) trwy Cymru.

**Paul Morgan**

# TELYNEG Y MIS
# EBRILL

Medd y bardd yn wyn ei fyd –
"Wele Ebrill glas ei lygad;"
"Wele Ebrill," medd y byd,
Trwy ei flodau hanne cauad.

"Ti freuddwydiwr, gwrando, saf,"
Medd aderyn yn y berllan;
Cana lawen garol haf,
Wedi gŵyl o flwyddyn gyfan.

"Fardd y blodau wele fi"
Medd briallen yn y cysgod
Hoff gan bawb ei hwyneb hi,
Blentyn llonnaf haul a chawod.

Yn y galon, yn y pridd,
Nid yw bywyd fud na byddar;
Dywed cân a llygaid dydd
Deimlad dyfnaf dyn a daear.

Pwy fu neithiwr hyd y ddôl,
Mewn sandalau aur ac arian?
Pwy fu'n galw'r dail yn ôl
Ac yn llithio'r blodau allan?

Gyda'i dylwyth teg y daeth
Heibio eleni fel y llynedd;
Gwyn ei lwybr fel y llaeth –
Mwyn ei dymer fel rhianedd.

Cân mwyalchen yn yr ardd
Rhwng y blagur ar y perthi:
Gydag Ebrill pwy na chwardd?
Berr yw'r gawod – hwy yw'r glesni.

Gad dy do, yr wyneb cul,
Tro i wrando cainc mwyalchen;
Onid gwell yw cân na chnul?
Calon iach yw calon lawen.

Cyfod hauwar, dos i hau,
Oni weli seithliw'r enfys?
Ni ddaw bendith o nacau,
Ni ddaw bara i esgeulud.

Gŵr êl allan cyn y wawr
Pan fo'r briall yn eu fymor,
Fed ei faes ar decach awr –
Gasgl ei wenith i'w ysgubor.

Glas yw wybyr Ebrill
Glas fel llygad Men –
Mae enfys ar y cwmwl
A blagur ar y pren.
Croesaw fis diferion
A phelydr bob yn ail;
Tyred gyda'th flagur
A thyred gyda'th ddail.

Gwyn yw wyneb Ebrill,
Gwyn gan lygaid dydd;
A pha sawl llwyn briallu
Ym min y ffordd ymgudd?

Croesaw fis y meillion –
A mis yr oen a'r mynn.
Tyred yn dy felyn –
A thyred yn dy wyn.

Gwin yw awel Ebrill –
Pob aderyn ŵyr,
O'r hedydd gân y bore,
I'r mwyalch gân yr hwyr;
Gwyn dy fyd, aderyn,
A thithau bren a dardd;
Gwyn fyd pawb a phopeth
Ond calon brudd y bardd.

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN MAI**
**13 – 04 – 90**

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Carys Hall a Geraint Evans ar enedigaeth mab Dewi Hall, brawd bach i Elin sy'n fawr ei gofal ohono yn ôl pob sôn. Y ddau deulu wrth eu bodd.

# PORTHI'R LLWYTH

Roedd Neuadd Goffa Eglwys Gadeiriol Llandaf dan ei sang i ginio dydd Sul ar Chwefor 25. Roedd yr achlysur, am wn i, yn un unigryw. Daeth dros gant ynghyd gydeistedd wrth fyrddau a oedd wedi'u llwytho gan ddanteithion blasus. Ond nid dod i fwyta a chymdeithasu'n unig oedd y bwriad. Pennaf am can y cyfan oedd codi arian tuag at gronfa Eisteddfod Cwm Rhymni.

Tri gŵr sy'n dod o'r cwm a gafodd y syniad – George Askey, Gethin Williams a Viv Williams. Fe aethon ati i gysylltu â brodorion eraill y cwm a oedd bellach ar wasgar. Yn y diwedd roedd bron pawb a ddaeth i'r achlysur yn un o 'bobl y cwm' sy'n cynnal yr Eisteddfod eleni.

Roedd yr arlwy'n helaeth ac yn flasus, y bwydydd yn amrywiol, yr addurno'n chwaethus, y gwin yn ddethol a'r sgwrs yn felys. Roedd y peth fel aduniad llwyth. Cofiai'r brodorion am y gymdogaeth gynt, dyddiau ysgol, a ble mae pwy a'r beth ddigwyddodd.

I ni o'r tu allan a aeth i gefnogi'r achos roedd yn dda teimlo gwres y perthyn sydd mor nodweddiadol o bobl y cymoedd. Yno roedd dau o neiaint y bardd Idris Davies ac yno hefyd oedd dwy chwaer yr enwog Barchedig Rhys Bowen. Enw arall a gododd oedd Isaac Herriman a fu gymaint o ddylanwad dros Gymreictod y cwm a da oedd cael ei ferch ymlith y cwmni.

Rhoddwyd teyrnged i ymdrechion glew Cwm Rhymni gan Hubert Morgan, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith ac roedd pawb ohonom ond yn rhy barod i ategu pob diolch i'r gwragedd a'r cyfeillion a lafuriodd mor galed i roi i bawb ohonom wir wledd.


Mae'n werth nodi i ymdrechion y gweithwyr ddwyn ffrwyth cymdeithasol ac elw sylweddol. Pris y cinio oedd £10 y pen ac fel canlyniad trosglwyddwyd i Gronfa'r Eisteddfod dros £90.

**Onid oes modd i Gymry Llandaf ddilyn yr esiampl a threfnu digwyddiad tebyg er budd Eisteddfod Cwm Rhymni ac, ar yr un pryd, er lles i'r gymdeithas Gymraeg yn Llandaf a'r cylch?**

**Wynne Lloyd**



*Brodorion Cwm Rhymni a ddaeth at ei gilydd i'r cinio codi arain at Eisteddfod eu bro.*




## CLIWIAU CROESAIR Rhif 99 Ebrill 1990

AR DRAWS:

8. Rhai sy'n clywed sôn am lithriadau pobl eraill. (8)
9. Dylem roi tro amdano, 'w. (6)
10. Plentyn y famog. (3)
11. Carnedd ar fynydd bychan ger Tywyn, Meirionnydd. (8)
12. Gwneud llanast ar gwrlid dilychwin. (6)
13. Yma mae beddrodau'r hen gyfeillion. (7,1,7)
15. Ymborth tila yw letys i gyfarfod â'r ddirwy a osodwyd. (7)
18. "Dŷ f' . . ., llwyd ei fondo" (Eifion Wyn). (7)
21. Dydd o ŵyl answyddogol a drefnir i'r teyrn gan ŵr dinod. (7,1'1,6)
24. Na brwd nac oer, fel cynulleidfa Laodicea. (6)
25. "Nid Mari wyf fi," medd y rhan fwyaf, (ac eithrio un). (8)
26. Fan draw. (3)
27. Dawnswraig a fynnodd bris uchel am ei pherfformiad. (6)
28. Dyfais a luniwyd gan y "brodyr iawn"? (2,6)

I LAWR:

1. Nid sedd i farchog o gwmpas y Ford Gron. (6)
2. Trosi un-deg-wyth i "Hen Gymraeg". (6)
3. Gwerth deryn o liw arall i gael trefn ar y wlad. (15)
4. Acho slant yn y Rhondda. (2,5)
5. Symud yn hamddenol. (4,3,2,6)
6. Adar dwylanog wedi trin eu plu. (8)
7. Cloi lliw o fewn y creigleoedd. (8)
14. Hyd. (3)
16. Cyfnodau byr? (5,3)
17. Boddlon ar ei ymdrechion prydyddol. (8)
19. Gadewch inni fynd i weld barf yr haidd o Loegr. (3)
20. Cofnodi am ŵy sgrech-y-coed – a hynny yn berffaith glir. (7)
22. Adfer i'w hen ddiwyg. (6)
23. Gwyddor geiriau – maes diddorol i bob datrysydd. (6)

## DATRYSIAD RHIF 98

AR DRAWS: 5. Gwenyn; 6. Prynwch; 9. Llenydda; 10. Almaenig; 11. Cnul; 12. Danteithion; 13. Creaduriaid; 18. Cerdyn Post; 21. Agos; 22. Digroeso; 23. Swmpus; 24. Dwedwch; 25. Goleuo.

I LAWR: 1. Sefydlir; 2. Wythawd; 3. Cromlechi; 4. Anterth; 5. Glesni; 7. Chwilod; 8. Darnau Gosod; 14. Annhegwch; 15. Isalmaen; 16. Rhediad; 17. Moduro; 19. Dirgel; 20. Tasgodd.

## CYSTADLEUAETH RHIF 98

Derbyniwyd saith ymgais. O anwybyddu 5 i lawr, yr oedd gwall arall mewn dau ohonynt. O'r pump cywir, yr enw a ddaeth o'r het oedd N Mathias, Tan-y-Bryn, Ebenezer Street, Castell Newydd Emlyn, Dyfed, ac fe fydd y tocyn llyfrau ar ei ffordd i'r cyfeiriad hwnnw gyda hyn. Y pedwar arall oedd yn gywir oedd: H Thomas, Y Mynydd Bychan; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; Rhian Williams, Glan-y-Llyn; a Mrs G M Hopkins, Llanishen.

## YMDDIHEURAD

Diofalwch Ap Lewsyn ei hun oedd yn gyfrifol am adael 5 i lawr yn ddi-gliw. Y cliw a baratowyd oedd "Mae'r ferch wedi rhoi ei legins o chwith." a'r ateb oedd GLESNI. Ymddiheuriadau i bawb a ddryswyd gan fy niofalwch. Er tegwch i bawb, anwybyddwyd y gair hwn yn llwyr wrth farnu cywirdeb yr atebion.



DYMUNA'R DINESYDD GYDNABOD GYDA DIOLCH GEFNOGAETH Y SWYDDFA GYMREIG A CHYMDEITHAS GELFYDDYDAU DE DDWYRAIN CYMRU TUAG AT GOSTAU CYHOEDDI.

## CANOLFAN YR URDD

**Enillydd tocynnau'r Gêm Ryngwladol**

Mrs Elinor Patchell
35 St John's Crescent
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

**Enillwyr Cymdeithas Cefnogwyr y Ganolfan – Ionawr –**

1. Miss Carol Davies, 3 Louise Court, Hazelhurst Road, Llandaff North, Caerdydd.
2. R O W Edwards, 23 Westbourne Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.
3. I I Thomas, 4 Heath Park Avenue, Heath, Caerdydd.

**DYDDIAD COPI RHIFYN MAI**
**13 – 04 – 90**


# DINESYDD

***PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH***

*Golygydd*
**Shân Emlyn**
5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair
Llandaf, Caerdydd CF5 2EE
☎ 0222 567438

*Hysbysebion*
**Gwasanaethau Cyfryngol Thomson**
4ydd Llawr, Tŷ-Marland
Sgwar Canolog, Caerdydd
CF1 1EP
☎ 0222 343432

*Dylunio, Cysodi ac Argraffu*
**Huw Davies**
Detheridge Cyf
93 Cowbridge Road East
Caerdydd CF1 9AF
☎ 0222 223525
Ffacs 0222 383760


Dyddiad copi rhifyn Mai
**13 – 04 – 90**
14,400 o ddarllenwyr

CASTELL CAERDYDD

CARDIFF CASTLE

# DEWCH Â'R TEULU I BROFI 1900 O FLYNYDDOEDD O HANES CASTELL CAERDYDD

**AR AGOR 362 O DDIWRNODAU'R FLWYDDYN**



**GORTHWR NORMANAIDD**

***HEFYD:***

***CAER RUFEINIG***

***GWAITH ADNEWYDDU BURGES***

***AMGUEDDFEYDD CATRODOL***

**Am fanylion pellach ...... Neuadd Wledda a'r Cyfleusterau Cynadledda, cysylltwch â:**

**Y Gweinyddwr**
**Castell Caerdydd**
**Caerdydd CF1 2RB**
**Ffôn: 0222 822083**

CITY OF CARDIFF
DINAS CAERDYDD